

8.1

Ceisiadau'n Economaidd

Economic Applications

Rhif y Cais: **34C40Z/EIA/ECON** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Mr. Paul Kellett
Ecopellets Ltd
Peboc
Llangefni Industrial Estate
Llangefni
Anglesey
LL77 7UX**

Codi Gwaith Ynni Biomaz newydd yn cynnwys gwaith peledi pren, gwaith ynni biomaz gwres cyfun, peiriannau tynnu rhisgl a naddu pren, iard storio coed ac adeiladu mynedfa newydd i gerbydau ar dir ger

Erection of a new Biomass Energy Plant comprising of a wood pellet plant, a biomass combined heat power plant, debarking and chipping plant, wood storage yard and construction of a new vehicle access on land adjacent to

Peboc, Industrial Estate, Llangefni



Pwyllgor Cynllunio: 02/05/2012

Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (RWW)

Argymhelliad:

Gwrthod

Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:

Mae'r cais cynllunio yn destun i Asesiad Effaith Amgylcheddol

1. Y Safle a'r Bwriad

Mae'r safle yn safle maes glas sy'n mesur oddeutu 16 erw, a leolir ar ffin ddeheuol eithaf Stad Parc Diwydiannol Bryn Cefni. Tiroedd o amgylch yr hen ffatri Gemegol Eastman Peboc yw'r safle maes glas ac mae'n gorwedd rhwng y gwaith dŵr tua'r dwyrain, Peboc i'r gorllewin a ffordd y Stad Ddiwydiannol tua'r gogledd. Mae'r safle wedi ei leoli tua 1.5km bellter o gyffordd 6 yr A55 a thua 800 metr o Ganol Tref Llangefni.

Ar hyn o bryd ceir mynediad i'r safle trwy fynedfa adwy amaethyddol yn uniongyrchol oddi ar y brif gylchfan Stad Ddiwydiannol Bryn Cefni.

Mae'r cais yn gofyn am ganiatâd cynllunio i adeiladu Gwaith Datblygu Ynni Biomass sy'n cynnwys y canlynol:

- Gwaith pelenni pren 100,000 tonnall y flwyddyn ar gyfer cynhyrchu pelenni pren o bren fforestydd i'w defnyddio mewn gorsafoddd pŵer a systemau hylsogi diwydiannol, masnachol a domestig eraill.
- Gwaith biomass solet CHP (Gwres ac ynni Cyfunedig) i ddarparu gwres proses ar gyfer y gwaith pelenni pren ac i gynhyrchu 17MWe o drydan adnewyddadwy, y bydd 14.3MWe ohono ar gael i'w allforio i'r grid.
- Gwaith biomass hylif CHP i ddarparu gwres proses ar gyfer y gwaith pelenni pren ac i gynhyrchu 14MWe o drydan adnewyddadwy, y bydd 13.6MWe ohono ar gael i'w allforio i'r grid.
- Gwaith Cysylltiedig: -
 - Iard storio coed gydag offer tynnu rhisgl a chreu sglodion
 - Is-orsaf drydan newydd.
 - Mynediad newydd i gerbydau a ffedog goncridd.

Trosolwg o'r datblygiad arfaethedig

Y prif weithgarwch yw cynhyrchu 100,000 tonnall y flwyddyn o belenni coed trwy fewnforio tua 200,000 tonnall o bren fforestydd â'u rhisgl wedi'i dynnu ymaith (boncyffion coed bach crwn), pren wedi'i ailgylchu (y Diwydiant Adeiladu) a chyd-gynhyrchion melin lifio (sglodion pren, blawd llif, toriadau o goed). Bydd y broses weithgynhyrchu pelenni pren angen gwres ar gyfer sychu'r pren cyflenwol ac ynni i weithredu'r offer prosesu mecanyddol, sydd i gael eu cyflenwi gan y Gwaith Biomass gwres ac ynni solet a hylifol cyfunedig. Mae gan y gwaith biomass solet a hylif y gallu i gynhyrchu tua 31MW o drydan, i gyflenwi pob un o ofynion gwres ac ynni'r gwaith pelenni pren, ac i allforio 27.9MW o'r trydan i'r grid. Bwriedir i'r pelenni pren fod ar gael i'w gwerthu fel tanwydd solet carbon niwtral i gymryd lle tanwydd ffosil mewn gorsafoddd ynni glo, yn ogystal â defnyddiau gwresogi diwydiannol, masnachol a domestig eraill.

Bwriedir i'r gwaith CHP biomas solet arfaethedig brosesu tua 175,000 tonnall y flwyddyn o bren a gompostwyd wedi'i ailgylchu, pren adeiladu a dymchwel, a phren fforestydd a fydd yn darparu gwres proses ar gyfer y ffatri pelenni pren yn ogystal â chynhyrchu oddeutu 17MWe gydag allbwn net o 14.3MWe i'w anfon i'r grid. Mae'r pren sydd wedi'i ailgylchu i gael ei ddanfôn i'r safle mewn cerbydau HGV wedi'u gorchuddio, a'i drosglwyddo i'r storfa danwydd coed wedi'i adennill, lle mae'r coed yn cael ei naddu, ei raddio a'i sgrinio'n fagnetig ar gyfer cael gwared ag eitemau metel. Yna mae'r tanwydd parod yn cael ei drosglwyddo i ardal storio'r safle biomas solet lle mae'n cael ei losgi er mwyn darparu'r gwres proses ac ynni sy'n ofynnol ar gyfer y broses beledu, gyda'r gweddill yn cael ei allforio ar ffurf trydan i'r grid. Disgwylir y bydd tua 2,400 tonnall o ludw gwaelod a 2,400 tonnall o ludw yn cael ei gynhyrchu bob blwyddyn fel rhan o'r broses.

Bwriedir i'r gwaith CHP biomas hylif arfaethedig losgi tua 22,500 tonnall y flwyddyn o danwydd megis gwêr ac olewau llysiâu a adenillwyd mewn injan ddisel fawr. Bydd allbwn trydanol y gwaith yn 13.6MWe i'w anfon i'r grid ac mae hefyd i gyflenwi 6.8 tonnall yr awr o stêm sydd wedi'i adennill o nwyon llosg yr injan, a fydd yn cael ei fwydo i'r tyrbîn stêm biomas solet.

Er hwylustod, mae'r manylion pellach sy'n gysylltiedig â'r cais fel a ganlyn:-

Adeiladau a strwythurau arfaethedig:

Iard storio pren awyr agored ac iard brosesu

Offer Pelenni Pren Hyd 56m (H), Lled 15m (L), Uchder 15m (U)

Seilos Storio 17m U

Uned Sychwr Swisscombi U 40m, 18m LI, 7m U

Gwaith Biomas Solet 46m U, LI 33m, 35.5m U

Gwaith Biomas Solet wedi'i Stacio U 40m

Gwaith Biomas Hylif 70m U, LI 25m, 24m U

Gwaith Biomas Hylif wedi'i Stacio 30m U

Is Orsaf Drydan 40m H, 20m LI, 10m U

Nid yw'r mesuriadau ar gyfer y tanciau storio cemegol, tanciau triniaeth amrwd, tanciau storio dŵr, tanciau olew ac iro a thyrau oeri wedi cael eu cyflwyno.

Mynediad i'r safle:

Bwriedir i'r brif fynedfa ar gyfer mewnforio cyflenwadau pren a'r man troi mawr fod o brif gylchfan Bryn Cefni tuag at Llwyn Ednyfed. Yn ogystal, bydd lle troi mawr wrth fynedfa ogleddol y safle ger y cyn-Ganolfan Dechnegol Eastman er mwyn creu darpariaeth i allforio pelenni pren oddi ar y safle. Mae pelenni pren a gynhyrchir i gael eu hallforio trwy fynediad ogleddol y safle drwy'r Ganolfan Dechnoleg.

Math o gyflenwad pren a thunelledd blyneddol:

200,000 tonnall o bren fforestydd

175,000 tonnall o bren gwastraff ac wedi'i ailgylchu

22,500 tonnall o wêr

Oriau Gweithio: 24 Awr

Cyflogaeth uniongyrchol: 62

Amcangyfrif o symudiadau cerbydau a nifer: 251 y dydd

2. Mater(ion) Allweddol

Mae egwyddor sylfaenol wrth asesu ceisiadau cynllunio yn cael ei amlinellu yn - Adran 38 (6) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref Prynu Gorfodol 2004 a pharagraff 3.1.2 o Bolisi Cynllunio Cymru sy'n nodi y dylai ceisiadau gael eu penderfynu yn unol â'r cynllun datblygu a gymeradwywyd neu a fabwysiadwyd ar gyfer yr ardal, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall.

3. Prif Bolisiâu

Cynllun Datblygu Unedol wedi'i Stopio

Rhan Un Polisi PO1 Cyflogaeth
Rhan Un Polisi PO4 Trafnidiaeth Integredig a Lleoliad y Datblygiad
Rhan Un Polisi PO5 Gwastraff
Rhan Un Polisi PO8 Amgylchedd
Rhan Un Polisi PO8b Datblygiadau Ynni
Polisi Cyffredinol GP1
Polisi Cyffredinol GP2
Polisi EP1 Tir ar gyfer Cyflogaeth
Polisi EP18 Ynni Adnewyddadwy
Polisi TR1 Yr Hierarchaeth Ffyrdd
Polisi TR2 Gwelliannau i'r Rhwydwaith Priffyrdd
Polisi TR3 Dylunio Priffyrdd
Polisi TR10 Safonau Parcio
Polisi EN1 Cymeriad Tirwedd
Polisi EN4 Bioamrywiaeth
Polisi EN5 Safleoedd Rhyngwladol
Polisi EN6 Safleoedd Cenedlaethol
Polisi EN7 Safleoedd Lleol
Polisi EN12 Safleoedd Archeolegol a'r Amgylchedd Hanesyddol
Polisi EN13 Cadwraeth Adeiladau
Polisi WP1a Cyfleusterau Rheoli Gwastraff
Polisi WP3 Cyfleusterau Trin Gwastraff
Polisi WP4 Llosgi Gwastraff
Polisi SG7 Sŵn
Polisi SG8 Ansawdd Aer

Cynllun Lleol Ynys Môn

Polisi 1 Cyffredinol
Polisi 5 Dylunio
Polisi 6 Defnyddiau Cymydog Drwg
Polisi 26 Parcio Ceir
Polisi 29 Cael Gwared â Gwastraff
Polisi 31 Tirwedd
Polisi 33 Cadwraeth Natur

Polisi 34 Cadwraeth Natur
Polisi 35 Cadwraeth Natur
Polisi 39 Archaeoleg
Polisi 41 Cadwraeth Adeiladau
Polisi 42 Dylunio
Polisi 45 Ynni Adnewyddadwy

Cynllun Fframwaith Gwynedd

Polisi Strategol 1
Polisi Strategol 4
Polisi B1 Pobl a Swyddi
Polisi B2 Pobl a Swyddi
Polisi B5 Pobl a Swyddi
Polisi C7 Ynni
Polisi C8 Ynni
Polisi D4 Amgylchedd
Polisi D10 Amgylchedd
Polisi D15 Amgylchedd
Polisi D20 Amgylchedd
Polisi D26 Amgylchedd
Polisi D29 Amgylchedd
Polisi FF11 Priffyrdd
Polisi B1- Pobl a Swyddi
Polisi B2- Pobl

Polisi Cynllunio Cymru

**Gall Gyda Gwastraff - y Strategaeth Wastraff Genedlaethol
Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru**

**Polisi Cynllunio Cymru Nodyn Cyngor
Technegol (Cymru) 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy**

Polisi Cynllunio Cymru Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 11: Sŵn

Polisi Cynllunio Cymru Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 12: Dylunio

Polisi Cynllunio Cymru Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 18: Trafnidiaeth

Polisi Cynllunio Cymru Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 21: Gwastraff

4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar 9 Mehefin 2011 ac yn dilyn sylwadau'r ymgynghoreion statudol a'r swyddog cynllunio, cafwyd ail ymgynghoriad ar ôl derbyn gwybodaeth ychwanegol ar 18 Tachwedd, 2011. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu crynhoi isod:

Aelod Lleol

Ymgynghoriad cyntaf: Dim gohebiaeth
Ail ymgynghoriad: Dim gohebiaeth

Dŵr Cymru

Ymgynghoriad cyntaf: Os caiff ei gymeradwyo, yn argymell amodau sy'n ymwneud â diogelu'r garthffos gyhoeddus, atal gorlwytho hydrolog o'r garthffos gyhoeddus, atal llygredd. Nodiadau Ymgynghorol hefyd ynghlwm yn ymwneud â chysylltiad â'r garthffos gyhoeddus.

Ail ymgynghoriad: Os caiff ei gymeradwyo yn argymell amodau sy'n ymwneud â diogelu'r garthffos gyhoeddus, atal gorlwytho hydrolog o'r garthffos gyhoeddus, atal llygredd. Nodiadau Ymgynghorol hefyd ynghlwm yn ymwneud â chysylltiad â'r garthffos gyhoeddus.

Cyngor Tref Llangedfni

Ymgynghoriad cyntaf: Yn gyffredinol gefnogol i'r cais, ond yn argymell rhoi cyfnod ymgynghori ychwanegol gydag Asiantaeth yr Amgylchedd a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Ail ymgynghoriad: Dim gohebiaeth

Priffyrdd

Ymgynghoriad cyntaf:

- Mae'r nifer o symudiadau cerbydau nwyddau trwm yn yr Aseiad Cludiant (TA) wedi'u tanamcangyfrif yn sylweddol.
- Nid yw'n ymddangos fod manylion yn cael eu darparu yn y TA i gadarnhau patrymau dosbarthiad teithiau naill ai yn ystod y gwaith adeiladu neu mewn perthynas â staff, danfon nwyddau, a symud cynnyrch allan yn y dyfodol.
- Y darpariaethau parcio yn aneglur yn y cais.
- Mae'r ardaloedd sy'n darparu cyfleusterau parcio ceir, manau mynediad a gwaith lledu'r ffordd yn ymddangos fel eu bod tu allan i ffiniau datblygu'r cais.
- Nid yw'r cynlluniau a gyflwynwyd yn dangos sut y mae'r ymgeisydd yn bwriadu creu'r ddau bwynt mynediad a chynlluniau lledu'r ffordd sydd eu hangen.
- Os nad yw tir ar gael i wneud gwelliant o'r fath i'r mynedfeydd, mae'n codi amheuan p'un a yw'r safle yn cael ei wasanaethu'n ddigonol o ran mynediad; gan gadw mewn cof y lefel uchel o weithgaredd HGV y bwriedir ei gynhyrchu.
- Yn achos y mynediad gogleddol a fwriadwyd, cwestiynir addasrwydd y fynedfa yn y lleoliad hwn i ddarparu ar gyfer y lefel uchel o symudiadau cerbydau nwyddau trwm.
- Ni ddarperir unrhyw adolygiad o ystyriaethau diogelwch mewn perthynas â naill ai ffyrdd neu'r dull mynediad arfaethedig yn y TA.
- Nid yw profion capasiti cyffordd wedi cael eu gweithredu fel rhan o'r TA.

Ail ymgynghoriad: Nid oes unrhyw newidiadau neu wybodaeth ychwanegol wedi cael eu cyflwyno gan yr ymgeisydd mewn perthynas â'r ymateb i'r Ymgynghoriad Cyntaf. Felly, nid oes digon o wybodaeth wedi'i darparu o fewn y cais i argymell cymeradwyo.

Priffyrdd, Draenio

Ymgynghoriad cyntaf:

- Ymddengys bod y cynigion parthed â draenio dŵr budr a dŵr wyneb fel y'u disgrifir yn foddhaol mewn egwyddor.
- Nid oes manylion dylunio nac adeiladu penodol ar gyfer y system ddraenio dŵr budr a dŵr wyneb wedi'u cynnwys gyda'r cyflwyniad hwn. O ganlyniad, ni ellir rhoi cyngor ar ddigonolrwydd y cynllun arfaethedig.
-

Ail ymgynghoriad: Dim ymateb

Bioamrywiaeth

Ymgynghoriad cyntaf:

- Dylai'r cais wneud defnydd o goed a gwrychoedd presennol ar y safle cyn belled ag y bo modd, a dylai coed a llwyni brodorol gael eu plannu mewn ardaloedd priodol a fydd yn aros o fewn y safle.
- Dylai'r ymgeisydd ddarparu adroddiad cofnodion ecolegol sylfaenol o Cofnod (canolfan cofnodion lleol) ar gyfer unrhyw gofnodion rhywogaethau a warchodir yn ac yn agos i'r safle.

Ail ymgynghoriad:

- Cynghori glynu at yr argymhellion yn Adran 5.1 o'r Adroddiad Asesiad Ecolegol Cychwynnol (rheoli a lleihau effaith ecolegol andwyol)
- Dylid gwneud gwaith lliniaru sy'n gysylltiedig â dymchwel adeilad carreg ar y safle yn unol ag adrannau 8.1 a 8.2 yr arolwg ystlumod.
- Dylid gwneud gwaith lliniaru sy'n gysylltiedig â chadw gwrychoedd, prysgwydd, coed lled aeddfed a rhywogaethau a warchodir yn unol ag adrannau 4.7.86 - 4.7.101 o Gyfrol 4 Pennod 7 y Bennod Ecoleg.
- Dylai'r Strategaeth Reoli ar gyfer Rhywogaethau Planhigion Ymledol Anfroddol gael ei chyfeirio at AAC a CCGC ar gyfer sylwadau cyn cael ei derbyn.
- Mae gan Warchodfa Natur Leol Nant y Pandy ystod o gen sydd wedi cael eu harolygu yn y gorffennol. Mae cennau yn sensitif iawn i newidiadau mewn ansawdd aer. Argymhellir bod arbenigwr cymwysedig cen / mwsogl yn rhoi barn broffesiynol ar effeithiau posibl y gwaith ar gen y Gwarchodfeydd Natur Lleol o dan yr amodau sydd wedi'u modelu ar gyfer allyriadau o'r safle, a defnyddio'r farn hon i lywio'r broses gynllunio.

Iechyd Amgylcheddol

Ymgynghoriad cyntaf:

- Mae pryder mawr ynglŷn â'r adroddiad Ansawdd Aer a gyflwynwyd gan fod agweddau amrywiol o ddatblygu sydd â'r potensial i achosi llygryddion sy'n dod o fewn Rheolaeth Ansawdd Aer Lleol.
- Mae'r ymgeiswyr wedi methu ag adnabod eiddo preswyl yn Llwyn Ednyfed, sydd yn llawer agosach na'r eiddo preswyl maent yn cyfeirio ato'n fynych.
- Ar hyn o bryd mae ansawdd yr aer ar Ynys Môn yn dda iawn ac ni fu angen cyhoeddi unrhyw Gynllun Rheoli Ansawdd Aer ar gyfer unrhyw ran o'r Ynys, sefyllfa a ddylai cael ei chynnal. Nid yw'r awgrym ym mharagraff 4.6.12 o GYF 4 Pennod 6 Modelu Ansawdd Aer a Gwasgariad Atmosfferig (AQMA) bod 'cyflwyno Datblygiad Ynni Biomas yn annhebygol o gyfyngu ar weithrediad Cynllun Rheoli Ansawdd Aer Cyngor Sir Ynys Môn' yn adlewyrchu'r nod hwn, gan y byddai cyhoeddi AQMA yn ganlyniad gwbl anfodddhaol.
- Mae'r ymgeiswyr wedi comisiynu gwaith modelu gwasgariad atmosfferig manwl i benderfynu'r cyfraniadau proses posibl i grynodiad o lygryddion ar lefel y ddaear. Mae'r modelu hwn yn cynnwys gweithrediad y ddau safle gwaith hylosgi biomas a sychwyr pren sy'n gysylltiedig â'r Datblygiad Ynni Biomas. Cafodd y modelu ei wneud trwy ddefnyddio data meterolegol bob awr gan y Swyddfa Dywydd yn RAF Fali ar gyfer y pum mlynedd 2005 i 2009 yn gynwysedig. Fodd bynnag, mae crynodiadau cefndir amcangyfrifedig ar gael ar gyfer Nitrogen Deuocsid (NO₂) a Mater gronynnol (PM₁₀) hyd at 2020 ac mae Adran Iechyd yr Amgylchedd yn cwestiynu pam nad oedd y data cefndirol ar gyfer 2012 (y flwyddyn weithredol gyntaf) wedi cael ei ddefnyddio.

Ail ymgynghoriad:-

Cafodd asesiad effaith ar iechyd cyflym ei gynnal mewn Digwyddiad Ymgynghoriad Rhanddeiliaid yn Llangefni ar 16 Mehefin 2010 a dynodwyd 4 ardal o effaith negyddol canfyddedig, sef: - Rhaniadau yn y gymuned a phwysau gan gyfoedion, Sŵn ac/neu Arogl/ Drewdod, Ansawdd Aer a Dŵr, Perygl Ffyrdd. Mae consyrn pennaf Adran Iechyd yr Amgylchedd yn ymwneud â Sŵn ac Ansawdd Aer, y ddau beth yn faterion a oedd yn cael eu gweld fel rhai a allai gael effaith negyddol posibl ar iechyd yn y AEI cyflym.

Ansawdd Aer

Mae'r ymgeiswyr wedi comisiynu gwaith modelu gwasgariad atmosfferig manwl i benderfynu ar gyfraniadau proses posibl i grynodiad o lygryddion lefel y ddaear, o ganlyniad i weithrediad y ddau safle offer hylosgi biomas a sychwyr pren. Mae'r ACLI yn pryderu am y crynodiadau cynhenid uchel o nitrogen deuocsid sy'n gysylltiedig â'r broses, mewn ardal sydd yn dioddef o wrthdroadau cyfnodol ac ar hyn o bryd lle nad oes prin ddim prosesau llygru. O ystyried nad oedd yr NO₂ Blynyddol yn cael ei fonitro, ac yn seiliedig ar ragfynegiadau o Fapiau Cefndir sydd ar gael o Archif Ansawdd Aer Cenedlaethol, mae'r ALI yn awgrymu bod rhaid pryderu ynglŷn â maint y Crynodiad Amgylcheddol a Ragwelir (PEC) o'i gymharu â'r Amcan Ansawdd Aer. Mae'r ffaith fod y data modelu yn seiliedig ar ddata Met o RAF Fali, lleoliad arfordirol 15 cilometr o'r Datblygiad Ynni Biomas, yn hytrach na data MET penodol ar gyfer Llangefni, hefyd yn achosi i ni edrych ar y PEC gyda phryder, yn enwedig gan fod y dref yn aml yn dioddef o wrthdroadau tymheredd cyfnodol. Yn

seiliedig ar y wybodaeth a ddarperir, mae pryderon penodol ynghylch:

- Efallai na fydd yr uchder simnai yn ddigon uchel i sicrhau nad yw'r amcan NO2 1 awr tymor byr yn cael ei dorri o fewn y stad ddiwydiannol.
- Efallai na fydd yr uchder simnai yn ddigon uchel i sicrhau bod cyfraniad y datblygiad arfaethedig at ddyddodiad nitrogen deuocsid ac asidedd (oherwydd y nitrogen) yn llai nag 1% o'r Llwyth Critigol ar gyfer nitrogen, neu'r llwyth critigol ar gyfer asidedd (o ganlyniad i nitrogen) ar nodweddion / cynefinoedd dewisol yn rhai o'r safleoedd dynodedig o fewn radiws o 15km.
- Gall uchderau simneiau amrywiol achosi i fwg y simnai fyrrach amharu ar y simnai dalach, a thrwy hynny atal gwasgariad effeithiol.
- Mae diffyg gwybodaeth am effeithiau cronus, o ystyried ffynonellau diwydiannol eraill, h.y. llygrwyr eraill ar y stad ddiwydiannol a'r safle biomas a gymeradwywyd yng Nghaergybi.
- Nid ymdriniwyd yn ddigonol â mater gwrthdroadau ac mae pryderon p'un a yw data met arfordirol Fali yn gymaradwy â hinsawdd micro Llangefni ac yn cymryd i ystyriaeth y gwrthdroadau lleol.
- Bydd y cais angen y rhan fwyaf o gapasiti y stad ddiwydiannol o ran terfynau allyriadau a gallai o bosib amharu ar ddatblygiadau yn y dyfodol o fewn Stad Ddiwydiannol Bryn Cefni.
- Mae'r safle ar hyn o bryd yn destun i gais am drwydded gyda'r Asiantaeth yr Amgylchedd, a fydd angen bod yn fodlon nad oes gan y datblygiad unrhyw effeithiau sylweddol ar ansawdd aer neu iechyd dynol. Fodd bynnag, mae pryder digonol am yr uchder y simneiau fel ei bod yn awr yn bwrw amheuaeth ar ganiatâd i'r cynlluniau. Yn wir, mae'n bosibl, o ystyried sylwadau'r Awdurdod Lleol i Asiantaeth yr Amgylchedd, ynghyd â'u harbenigedd eu hunain yn y materion hyn, eu bod yn gallu ei gwneud yn ofynnol i uchder y simneiau gael ei gynyddu, mater a all gael effaith berthnasol ar y broses benderfynu. O ganlyniad, byddwn yn argymhell yn gryf yn erbyn rhoi penderfyniad i'r datblygiad hwn hyd nes y bydd penderfyniad Asiantaeth yr Amgylchedd yn hysbys.
- Os yw Asiantaeth yr Amgylchedd yn fodlon y gall y cynlluniau aros heb eu newid a bod penderfyniad yn cael ei wneud i roi caniatâd cynllunio, mae'n debygol y bydd y pryderon ynghylch yr allyriadau NO2 yn parhau, a bydd gofyn i'r Awdurdod Lleol gynnal Asesiad Manwl o Ansawdd Aer. Mae hyn yn debygol o olygu cost sylweddol i'r Awdurdod oni bai fod amod cynllunio penodol yn cael ei gynnwys yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeiswyr ddarparu, ar eu cost eu hunain, gyfarpar monitro ansawdd aer amser real ar gais yr Awdurdod. I ddechrau, mae hyn yn debygol o ymwneud ag ymgymryd â monitro NO2 amser real yn agos at leoliad crynodiad achos gwaethaf a ragwelir o NO2 bob awr. Lle bo'r 'monitro' yn nodi effaith negyddol sylweddol ar ansawdd yr aer, dylid cyflwyno cynllun lliniaru i'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn cynnwys amserlen ar gyfer ei weithredu.

Sŵn

- Nid yw'r lefelau sŵn mewn eiddo preswyl ar Ffordd Glanhwfa, Llangefni a Llwyn Ednyfed, Llangefni wedi cael eu mesur yn gywir fel y nodir yn atodiad B17 o TAN 11. O ystyried hyn, dylai casgliadau'r ymgeisydd o ran TAN 11 gael eu diystyru.
- Mae'r Ymgeisydd wedi gwneud nifer o honiadau gor-optimistaidd yn y cyflwyniad sŵn, yn arbennig, drwy ddweud bod y sŵn o'r datblygiad yn debygol o fod yn 'gyson' a heb ysgogiadau megis ffrwydradau, cleciau, clatro neu synau dyrnu ac y bydd 'yn weddol fand eang' sy'n golygu nad yw'n cynnwys gwichiadau, hisian, neu sŵn hymio. Dylid tynnu sylw at y rhestr o ffynonellau sŵn posibl yn sgil y datblygiad hwn fel y disgrifir nhw gan yr ymgeisydd: -
 - Symudiadau cerbydau ar y ffyrdd i'r safle ac oddi yno;
 - Symudiadau cerbydau a gweithgareddau yn yr iard storio logiau;
 - Tynnu rhisgl a chreu sglodion o logiau a darnau pren a fewnforiwyd i'r safle;
 - Melin falu ar gyfer sglodion i fewnbynnu i'r Prosesau Sychwr / Peledu;
 - Sŵn hydrologig o feltiau cludo a lloiau symudol sy'n cludo deunyddiau i'r offer Sychu a CHP;
 - Sŵn o'r Adeilad Sychwr;
 - Sŵn o'r Adeilad Boeleri;
 - Sŵn o'r Adeilad Tyrbin;
 - Sŵn o'r Adeilad Pelenni.
 - Mae'r ymgeisydd hefyd wedi tanamcangyfrif a thangyfrifo yn sylweddol effeithiau amlder tonaid / isel a sŵn cefndir y datblygiad arfaethedig a'i effaith ar iechyd dynol.

O ystyried yr uchod, mae gan yr Awdurdod Lleol bryderon difrifol am ansawdd aer a sŵn o'r datblygiad arfaethedig.

Amgylchedd Adeiledig

Ymgynghoriad cyntaf:

- Mae Asesiad Effaith Tirwedd a Gweledol wedi cael ei gynnal gan ddefnyddio'r canllawiau a argymhellir gan y Sefydliad Tirwedd (2002) a chanllawiau'r DoEHLG (2000).
- Mae'r safle wedi ei ddsbarthu fel tir glas o fewn stad ddiwydiannol Bryn Cefni ar dir a ddynodwyd at ddefnydd cyflogaeth ac mae'n cynnwys caeau bach sydd â gwrychoedd ar hyd eu terfynau. Mae'r parth dylanwad gweledol damcaniaethol yn ymddangos yn helaeth gan ymestyn i 20km o'r safle a bydd yr adeiladau arfaethedig yn cael eu gweld fel strwythurau amlwg o safleoedd agos o fewn lleoliad y dref, fel yr amlygir yn y ffotogyfosodiadau.
- Ystyrir bod y LVIA yn or-hael yn ei asesiad o effaith ar y dirwedd ac effaith weledol, ac nid yw wedi asesu holl elfennau'r cais.
- Ystyrir nad yw'r mesurau lliniaru yn ymdrin yn ddigonol â'r effeithiau hyn yn llawn ac nad yw'n ystyried lliniaru dyluniad gorffeniadau'r strwythurau arfaethedig ayb. na'u lliw.
- O fewn yr LVIA nid oes sôn nac asesiad o effaith weledol y gall y mwg sy'n cael ei ryddhau o'r simneiau arfaethedig ei gael.
- Nid oes sôn yn yr LVIA o effaith weledol y swm sylweddol o goed a fydd yn cael ei storio ar y safle. Mae hwn yn gamgymeriad a dylai fod wedi cael ei gynnwys.
- Rhoddir sylwadau ychwanegol hefyd ar faint o ddeunydd crai sydd i'w ddefnyddio fel rhan o'r gweithredu. Nodir bod diffyg o 27,500 tonnall o ddeunydd gan fod y mewnbwn blyneddol i fod yn 400,000 tonnall, tra bod y cyfrifon ar gyfer pren yn ei stad wreiddiol yn 200,000 tonnall, coed wedi'i ailgylchu yn 150,000 tonnall a gwastraff olew yn 22,500 tonnall.
- Ceir sylwadau ynghylch argaeledd faint o bren gwastraff a phren yn ei stad wreiddiol a ddyfynnir yn y cais o fewn radiws o 100 milltir, gan nad oes unrhyw gyfeiriad yn cael ei wneud o fewn y cais am weithrediadau, gweithgareddau a defnyddwyr terfynol eraill sydd yn ddibynnol ar yr un adnoddau. Awgrymir cyflwyno cynllun busnes i gefnogi'r cais.

Ail ymgynghoriad:

- Mae lliniaru ychwanegol yn cael ei gynnig mewn perthynas â chynllun lliw'r adeiladau a fydd yn helpu i leihau rhywfaint ar effaith y datblygiad.
- Mae'r ymgeisydd yn dadlau nad yw'r cynllun arfaethedig yn cynrychioli mwy nag effaith tirwedd ac effaith weledol gymedrol o unrhyw un o'r safbwyntiau a ddewiswyd o ystyried ei gyd-destun diwydiannol.
- Ymhellach at yr uchod, rhaid cofio bod y safle ei hun yn safle maes glas, mewn sefyllfa sydd yn uchel yn lleol, ar gyrion y stad ddiwydiannol ac yn agos at gefn gwlad o amgylch, sy'n darparu cyd-destun mwy sylweddol na'r stad ddiwydiannol. Felly, bydd y cais yn amlwg o fewn ei leoliad lleol ac ehangach, oherwydd ei uchder, graddfa a maint o'i gymharu ag adeiladau eraill mwy cymedrol o ran eu maint ar y stad ddiwydiannol. Felly, er bod lliniaru ychwanegol yn cael ei gynnig o safbwynt newid yn lliw'r adeiladau, nid yw'r adran Amgylchedd Adeiledig yn credu fod hyn yn mynd i'r afael â'r materion mwy sylfaenol fel graddfa, màs ac uchder y cais, a'i effaith ar y cyd-destun lleol a lleoliad y tirlun ehangach.

Datblygu Economaidd

Ymgynghoriad cyntaf:

- Mae Ynys Môn wedi dioddef yn economaidd ers 2008 gan gollu tua 5% o swyddi gweithwyr. Mewn ymateb, mae'r Cyngor wedi hwyluso'r Rhaglen Ynys Ynni.
- Oherwydd y manteision sylweddol tebygol a'r swyddi a grëir yn ystod y camau adeiladu a gweithredol, ynghyd â'r cyfraniad a wneir tuag at gyflawni dyheadau 'Ynys Ynni' y Cyngor, mae'r Uned Datblygu Economaidd yn cefnogi'n llawn y Gwaith Ynni Adnewyddadwy arfaethedig yn Peboc, Llangefni

- Yn amodol ar ganiatâd cynllunio, dylai'r datblygwr weithio'n agos gyda Rhaglen Ynys Ynni ac Uned Datblygu Economaidd y Cyngor i ddatblygu cyflogaeth leol, caffael a chynllun sgiliau. Bydd hyn yn helpu i gyflawni'r prosiect a gwneud y gorau o'r potensial ar gyfer y gadwyn gyflenwi leol a chyflogaeth.
- Mae'r adran yn ofalus, fodd bynnag, ynghylch y wybodaeth gyfyngedig a ddarperir am y materion trawsyrru trydan cysylltiedig.
- Nid yw cyfleoedd gwres / potensial y datblygiad wedi cael eu hamlinellu.
- Ychydig o wybodaeth a ddarperir ar gyrchfan a defnydd o sgil-gynhyrchion y broses.
- Nid yw'n glir sut y bydd y deunyddiau cyflenwad pren yn cael eu storio, y math o brosesu sydd i ddioglydd, p'un a yw'r deunyddiau'n dan do a'r dull lliniaru yn achos llwch a chynhyrchion a chwythir gan y gwynt
- Nodir traffig lori ar raddfa 132 o gerbydau HGV yn ddyddiol, sydd yn nifer sylweddol. A oes mesurau lliniaru ar gyfer ffyrdd / pont ar gau yn ystod tywydd garw?
- Mae lleoliad y gwaith yn agos at lety swyddfa - Canolfan Fusnes Ynys Môn, Medrwn Môn a swyddfeydd eraill sydd wedi'u lleoli yn unedau diwydiannol Mona Lifting a Redileads.

Ail ymgynghoriad:

- Mae Parc Busnes Bryn Cefni yn gartref i nifer cynyddol o unedau sydd wedi esblygu tuag at fwy o elfen 'manwerthu'. Mae datblygiad diweddar Cigoedd Llechwedd ac adeilad arfaethedig WR Davies yn codi'r pryder ynghylch p'un a yw gwaith Biomas ar y raddfa hon yn gymydog delfrydol.
- Ar Barc Busnes Bryn Cefni ac o dan nawdd y prosiect Safleoedd ac Adeiladau, mae cynigion strategol i ddatblygu nifer o safleoedd ar gyfer datblygiadau masnachol a / neu swyddfa pellach. Dylid felly ystyried y dyheadau hyn, defnyddiau posibl eraill yn y maes hwn, a pha effaith fydd y prosiect biomas yn ei gael ar ddatblygiadau yn y dyfodol.
- Mae Adran Iechyd yr Amgylchedd wedi mynegi pryderon difrifol ynghylch ansawdd aer gyda lefelau uchel o nitrogen deuocsid sy'n gysylltiedig â'r prosesau gwaith a'i effeithiau posibl ar iechyd dynol a'r amgylchedd naturiol. Gallai hyn gael effaith negyddol ddirifol ar y busnesau presennol a leolir yn y Parc Busnes ac unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol.
Mae anghysondebau yn bodoli dros y swmp blynyddol o belenni pren a fyddai'n cael ei gynhyrchu ar y safle. Os bydd mwy yn cael ei gynhyrchu, yna mae hyn yn cael effaith sylweddol ar symudiad trafndiaeth, ansawdd aer a swm sy'n gysylltiedig â'r gwaith ychwanegol.
- Nodir bod yr holl bren fforestydd yn cael ei fewnforio o goedwigoedd yn yr Alban a Cumbria. Mae'r ymgeisydd hefyd yn nodi Prydain gyfan fel yr ardal "leol". Mae hylif biomas i'w sicrhau o ffynonellau yng Ngogledd Cymru, Glannau Merswy a Gogledd Orllewin Lloegr, a bydd y gwêr yn dod o safle ar Lannau Merswy. Mae hyn oll yn ychwanegu at yr ôl troed carbon sy'n gysylltiedig â symudiadau cerbydau.
- Mae'r Adran Priffyrdd wedi nodi bod y nifer o symudiadau cerbydau nwyddau trwm wedi cael eu tanamcangyfrif yn sylweddol ar 66 o symudiadau lori'r dydd yn ystod y cyfnod 24 awr pryd y bydd y gwaith yn weithredol. Mae angen i hyn gael ei egluro ymhellach.
- Gyda deunyddiau i gael eu prynu yn Lloegr a'r Alban, mae'n amheus sawl un o'r 100 o swyddi a grëir a fydd o fewn y gadwyn gyflenwi sydd wedi ei lleoli yn ardal Ynys Môn.
- Mae lleoliad y gwaith yn agos at swyddfeydd megis Canolfan Fusnes Ynys Môn, Medrwn Môn ac eiddo busnes - Fferm ac Anifeiliaid Anwes, y datblygiadau newydd gan WR Davies a phroseswyr bwyd Cigoedd Llechwedd a VION. Mae angen ystyriaeth ychwanegol ynghylch pa effaith y gallai'r gwaith ei gael ar breswylwyr cyfagos.
- Oherwydd y manteision economaidd sylweddol tebygol yn ystod y gwaith adeiladu a'r cyfnod gweithredol a'r cyfraniad a wneir tuag at ddyheadau 'Ynys Ynni' y Cyngor, mae'r Gwasanaeth Datblygu Economaidd yn gefnogol mewn egwyddor i'r datblygiad newydd. Fodd bynnag, mae pryderon sylweddol am effeithiau negyddol posibl ar fusnesau sydd eisoes yn weithredol yn Llangefni

a gallu'r dref i ddenu buddsoddiad busnes newydd yn y dyfodol.

- Petai'r prosiect yn mynd rhagddo yn y lleoliad hwn, dylai'r Awdurdod Cynllunio sicrhau y byddai unrhyw effeithiau o'r fath yn ffinnal cyn cymeradwyo'r prosiect.

Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Ymgynghoriad cyntaf:

- Nid yw CCGC yn gwrthwynebu mewn egwyddor ond byddai'n gwrthwynebu os yw'r datblygiad arfaethedig yn parhau heb i'r materion canlynol gael sylw:
- Safleoedd Gwarchoddedig ac Ansawdd Aer: Mae'r gosodiad arfaethedig o fewn 15km o ACA Y Fenai a Bae Conwy, ACA Glan-Traeth, ACA Glannau Môn, ACA Y Twyni o Abermenai i Aberffraw, ACA Corsydd Môn ac o fewn 2km o Warchodfa Natur Leol Nant y Pandy a SoDdGA Cors Ddyga. Oherwydd agosrwydd y gwaith hwn at y safleoedd uchod, bydd angen ystyried effaith y gwaith o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010.
- Y prif bryderon ynglŷn â'r gwaith yw'r effaith bosibl allyriadau awyr o NOx, SOx ac amonia o'r ddwy ffynhonnell bwynt a hefyd gollyngiadau ffo ar y safleoedd hyn.
- Yr uchafswm cyfraniad a ragwelir gan y gwaith i'r llwyth critigol maetholion nitrogen ar gyfer yw 1.6% (bydd yn 3.1% ar gyfer GNLI Nant y Pandy) a'r uchafswm cyfraniad a ragwelir gan y gwaith i'r llwyth asid critigol ar gyfer ACA Corsydd Môn yw 4%. Gan fod y cyfraniadau i'r llwyth critigol ar gyfer dyddodiad asid maetholion nitrogen i ACA Corsydd Môn yn uwch na'r trothwy targed o 1%, mae hyn yn golygu bod angen ystyried y cyfraniadau hyn ymhellach. Felly ni all y Cyngor Cefn Gwlad gytuno bod yr asesiad ansawdd aer wedi dangos na fydd yr allyriadau aer o'r gwaith hwn yn cael effaith sylweddol tebygol, ac mae'n argymhell y bydd angen gwneud asesiad pellach cyn bod yr ymgeisydd yn gallu dangos na fydd y gwaith yn cael effaith andwyol mewn cyfuniad.
- Rhywogaethau a ddiogelir: byddai CCGC yn argymhell bod gwaith arolygu pellach yn cael ei wneud ar yr adeilad carreg da byw ar y safle er mwyn sefydlu sut mae'r ystlumod yn defnyddio'r adeilad.
- Rhywogaethau anfrodorol: Mae adran ecoleg yr asesiad yn nodi presenoldeb Llysiâu'r Dial a Jac y Neidiwr ar y safle; mae angen cyflwyno strategaeth ynghylch sut i reoli'r rhywogaethau a geir ar y safle.

Safleoedd dynodedig eraill: Nid yw CCGC wedi ystyried effeithiau posibl ar yr holl fuddiannau lleol neu ranbarthol. Felly, ni ddylai'r ACLI ddiystyru'r posibilrwydd o effeithiau andwyol ar fuddiannau o'r fath, a dylai gyflawni ei ddyletswyddau i warchod bioamrywiaeth, fel y nodir yn Adran 40 o Ddeddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) (2006).

Ail ymgynghoriad

- Safleoedd gwarchoddedig: roedd y canlyniadau ansawdd aer yn y Datganiad Amgylcheddol gwreiddiol a hefyd yn yr ail un yn dangos bod y crynodiad amgylcheddol a ragwelir (PEC) ar gyfer dyddodiad nitrogen ac asid yn uwch na 70% o'r isafswm llwythi critigol (CL) a osodwyd ar gyfer nodweddion ACA Corsydd Môn ac mae gormodiant rhagweledig o'r trothwy cyfraniad proses 1% (PC) ar gyfer dyddodiad asid a maetholion nitrogen mewn perthynas â nodweddion ACA Corsydd Môn. Felly mae'r angen yn parhau i'r allyriadau aer o'r cynllun hwn gael eu hasesu'n briodol o dan y Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010.
- Rhywogaethau a Warchodir: Mae arolwg ystlumod diwygiedig wedi cael ei gyflwyno a daeth i'r casgliad nad oedd tystiolaeth o ddefnydd gan ystlumod o'r adeilad carreg; argymhellwyd bod ecolegydd â chymwysterau priodol yn bresennol yn ystod gwaith dymchwel yr adeilad, a bod y gwaith yn cael ei atal os oedd ystlumod yn cael eu darganfod a bod ymgynghori'n digwydd gyda CCGC. Mae hefyd angen i waith dymchwel yr adeilad ddigwydd tu allan i'r tymor bridio adar
- Rhywogaethau anfrodorol: Cyn belled â bod y mesurau a amlinellir yn yr asesiad risg a gyflwynwyd yn cael eu dilyn, yna mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru o'r farn y dylai hyn ymdrin yn ddigonol â'r

pryderon mewn perthynas â rheolaeth y rhywogaethau ymledol anfrodorol.

- Safleoedd dynodedig eraill: Nid yw CCGC wedi ystyried effeithiau posibl ar yr holl fuddiannau lleol neu ranbarthol. Felly, ni ddylai'r ACLI ddiystyru'r posibilrwydd o effeithiau andwyol ar fuddiannau o'r fath, a dylai gyflawni ei ddyletswyddau i warchod bioamrywiaeth, fel y nodir yn Adran 40 o Ddeddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) (2006).

Asiantaeth yr Amgylchedd

Ymgynghoriad cyntaf:

- Amodau Cynllunio Safonol sy'n gysylltiedig â: gweithredu systemau draenio Cynaliadwy, risgiau ac adfer halogiad safle, a dim gosod pyst nac unrhyw fath arall o ddulliau gosod sylfaen dreiddiol ar y safle.
- Sylwadau ynghylch gollwng dŵr gwastraff cynnes (30 -50 gradd) i danciau cadw – mae'n ymddangos fel cyfle wedi'i gollu i harneisio ynni gwastraff o ganlyniad, a thrwy hynny leihau effeithlonrwydd y gweithrediad.
- Dylai'r ymgeisydd sicrhau bod y ffosydd cerrig yn cael eu hadeiladu i safon BS6297: 2007.
- Byddai angen Trwydded Amgylcheddol o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2007.

Ail ymgynghoriad

- Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi derbyn cais am Drwydded Amgylcheddol, fodd bynnag, mae dryswch rhwng y cais cynllunio a chais am drwydded amgylcheddol. Mae dyluniad y datblygiad yn wahanol ac mae faint o belenni a gynhyrchir yn wahanol gyda 100,000 tonnelli yn cael ei grybwyll yn y cais cynllunio a 250,000 tonnelli yn cael ei grybwyll yn y caniatâd amgylcheddol. Mae angen eglurhad.
- Mae angen gwybod beth fydd yr effaith a ragwelir o'r melinau malu ac oriau gweithredu.
- Awgrymir yr un amodau cynllunio safonol yn yr ymateb i'r Ail ymgynghoriad fel yr awgrymwyd yn yr un cyntaf

Nwy Prydain

Ymgynghoriad cyntaf: Dim gohebiaeth

Ail ymgynghoriad: Dim gohebiaeth

BT

Ymgynghoriad cyntaf: Dim gohebiaeth

Ail ymgynghoriad: Dim gohebiaeth

Scottish Power:

Ymgynghoriad cyntaf - mae gan SP offer a chyfarpar o fewn ardal y datblygiad ac mae'n cynghori'r datblygwr i gymryd camau priodol er mwyn osgoi unrhyw berygl posibl o ran offer trydanol.

Ail ymgynghoriad: Dim gohebiaeth

Diogelu ac Is-ddeddfau

Ymgynghoriad cyntaf: Dim gohebiaeth

Ail ymgynghoriad: Dim gohebiaeth

Wales & West Utilities

Ymgynghoriad cyntaf - Dim gwrthwynebiad ond mae W & WU â chyfarpar o fewn ardal y datblygiad ac maent yn cynghori'r datblygwr i gysylltu â nhw'n uniongyrchol cyn dechrau'r gwaith ar y safle.

Ail ymgynghoriad: Dim gohebiaeth

Railtrack

Ymgynghoriad cyntaf:

- Byddai Network Rail yn dymuno gwrthwynebu'r cais uchod hyd nes y cwblheir yn foddhaol Asesiad BG3 gan Gyngor Sir Ynys Môn.
- Mae'r defnydd o gerbydau nwyddau trwm fel yr unig ddull o gludo deunydd i'r safle yn ymddangos fel petai'n rhedeg yn groes i ddogfen Polisi Cynllunio Cymru, yn adran 8.5.3 nodir 'Dylai arwyddocâd strategol mynediad cludo nwyddau i ddiwydiant a masnach gael ei gymryd i ystyriaeth gan awdurdodau cynllunio. Lle bynnag y bo'n bosibl, dylent hyrwyddo cludo nwyddau ar y rheilffordd, dŵr neu drwy bibell yn hytrach nag ar y ffyrdd.'
- Nid yw bwriad presennol Llywodraeth Cymru i ddod â lein Amlwch yn ôl i ddefnydd gweithredol wedi cynnwys y defnydd tybiedig o'r lein ar gyfer cludo nwyddau i ac o'r Gwaith Biomass. Er mwyn darparu'r cyfleuster hwn, mae angen gwaith pellach i'r seilwaith tu allan i'r cwmpas y cytunwyd arno eisoes ar gyfer y gwaith ar y lein. Er enghraifft, byddai angen cysylltiad seidin nwyddau a gwaith cysylltiedig ar signalau.

Ail ymgynghoriad:

- Mae Network Rail yn dymuno tynnu'n ôl y gwrthwynebiad i'r cais cynllunio yn destun i'r amod canlynol:

Nid yw Pont 17 i gael ei ddefnyddio fel llwybr arferol neu ddargyfeiriol, ar gyfer y cerbydau nwyddau trwm sy'n mynd i mewn ac allan o'r safle hwn, hyd nes y mae Network Rail wedi cael asesiad wedi'i gwblhau (nid yw'r asesiad 40T a grybwyllir isod yn cydymffurfio ar hyn o bryd â'n manyleb). Mae Network Rail wedi siarad â Pheiriannydd Strwythurau Cyngor Ynys Môn ac o ddarllen y sylwadau isod, er nad ydynt yn rhagweld y bydd hyn yn cael ei ddefnyddio fel llwybr, nid yw'n cael ei ddiystyru.

RSPB:

Ymgynghoriad cyntaf: Dim gohebiaeth

Ail ymgynghoriad: Dim gohebiaeth

Cyngor Diogelu Cymru Wledig:

Ymgynghoriad cyntaf: Pryderon yn cael eu mynegi o ran yr allyriadau aer disgwylidig, sŵn a golwg y cais.

Ail ymgynghoriad: Dim gohebiaeth

Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch:

Ymgynghoriad cyntaf: Nid yw'n dymuno gwneud sylwadau ar y cais.

Ail ymgynghoriad: Dim gohebiaeth

Perchnogion y Stad Ddiwydiannol:

Ymgynghoriad cyntaf: Dim gohebiaeth

Ail ymgynghoriad: Dim gohebiaeth

Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd

Ymgynghoriad cyntaf:

- Mae'r safle yn ardal â photensial archeolegol ac nid yw'r Datganiad Amgylcheddol yn darparu asesiad digonol o adnoddau archeolegol ac effeithiau posibl y datblygiad ar archeoleg. Felly, yn unol â chanllawiau cynllunio cenedlaethol (*Polisi Cynllunio Cymru 2010*) a Chylchlythyr y Swyddfa Gymreig 60/96 (*Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Archaeoleg*), mae angen asesiad archeolegol o'r safle er mwyn galluogi ymateb gwybodus i'r cais.

Ail ymgynghoriad:

- Yn dilyn yr asesiad archeolegol pen desg a'r adroddiad arolwg geoffisegol dilynol – mae angen ymchwiliad archeolegol pellach cyn penderfynu ar y cais cynllunio, er mwyn sefydlu natur, dyddiad, maint ac arwyddocâd adnoddau archeolegol y safle. Dylai hyn gynnwys gwerthuso rhaglen o gloddio ffosydd treial archeolegol, y bydd eu canlyniadau'n cael eu ddefnyddio i lywio ein penderfyniad cynllunio ac unrhyw strategaeth liniaru yn y dyfodol.

16/2/2012 Ymateb Pellach:

- Cafodd pum ffos eu cloddio yn yr wythnos yn dechrau 13 Chwefror a nodwyd bod yno nodweddion Neolithig a Rhufeinig, gan gynnwys o bosibl safle anheddiad Rhufeinig. Mae'r gadwraeth archeolegol yn dda iawn, a chafwyd ystod o arteffactau yno.

15/3/2012 Ymateb Pellach:

- Mae ail gam o ffosydd wedi cael eu cloddio (i fod i ddod i ben heddiw), gan dargedu'r ffosydd prif loc a rhai anghysondebau geoffisegol a oedd wedi eu cynnig yn betrus fel adeiladau hirsgwar posibl. Er bod rhai waliau bosibl ar gael, nid yw eu ffurf yn glir ac nid yw wedi bod yn bosibl sefydlu eu dyddiad na'u pwrpas; ni chafwyd unrhyw adneuon llawr cysylltiedig a fyddai'n dangos eu bod yn rhan o adeilad. Ychydig iawn o ddarganfyddiadau sydd wedi eu hadennill o'r cyfnod hwn ac nid oes unrhyw nodweddion ychwanegol nad oeddent wedi eu canfod gan geoffiseg. Ymddengys mai'r ffordd fwyaf synhwyrol ymlaen yw ymgymryd â rhaglen o stripio, mapio a samplio fel amod o ganiatâd cynllunio. Yr wyf wedi gofyn i YAG baratoi adroddiad ar y gwerthusiad a byddaf yn gwneud argymhellion ffurfiol ar ôl ei dderbyn. Efallai wrth ysgrifennu'r adroddiad y daw rhywbeth i'r amlwg sy'n awgrymu bod dull gwahanol yn fwy addas, ond dyma a gredaf ar hyn o bryd.

Tim Diogelu Iechyd Gogledd Cymru

Ymgynghoriad cyntaf: Dim gohebiaeth

Ail ymgynghoriad: Dim gohebiaeth

Comisiwn Coedwigaeth

Ymgynghoriad cyntaf: Dim sylw

Ail ymgynghoriad: Dim gohebiaeth

Y Weinyddiaeth Amddiffyn

Ymgynghoriad cyntaf: Dim gwrthwynebiad

Ail ymgynghoriad: Dim gwrthwynebiad

Hysbysebwyd y cais drwy hysbyseb yn y Papur Newydd Lleol, trwy arddangos hysbysiadau safle amrywiol o amgylch Llangefni a dosbarthu llythyrau i hysbysu cymdogion. Cafwyd gwrthwynebiadau sylweddol, sef cyfanswm o tua 725 o lythyrau a negeseuon e-bost. Mae'r gwrthwynebwyr yn amrywio o drigolion lleol, cwmnïau a busnesau ar Stad Ddiwydiannol Bryn Cefni, Cyfeillion y Ddaear (Cangen Ynys Môn Gwynedd) a nifer fawr o negeseuon e-bost safonol gan aelodau o grŵp pwysau o'r enw Bio Fuel Watch. Cafodd y cais ei ail hysbysebu ymhellach yn dilyn derbyn gwybodaeth ychwanegol gan yr ymgeisydd. Mae hyn wedi arwain at (tua) 145 o lythyrau a negeseuon e-bost pellach gan yr un gwrthwynebwyr ag uchod yn gwrthwynebu'r cais, ond hefyd gan grŵp lleol a oedd wedi ffurfio pro fforma o wrthwynebiad y gellid ei e-bostio neu ei bostio i'r Awdurdod Lleol. Mae'r rhan fwyaf o wrthwynebiadau wedi bod yn gyson o safbwynt cynnwys fel y cyffredinolir o dan benawdau (i) - (viii), ac maent yn cael eu crynhoi fel a ganlyn:

- (ix) Ansawdd Aer, aroglau ac effeithiau ar Iechyd Dynol
- Nid yw'r Asesiad Effaith Cyflym ar Iechyd (RHIA) yn gyfystyr ag Asesiad Effaith Iechyd a Diogelwch neu Asesiad Effaith ar Iechyd digonol. Mae'r RHIA yn dod i'r casgliad nad yw'r datblygiad yn achosi unrhyw fygythiad i iechyd pobl leol, heblaw am rai dychmygol ac yn lle hynny bydd effeithiau cadarnhaol ar iechyd yn gysylltiedig â'r datblygiad.
 - Mae llosgi biomas yn cynhyrchu'r llygryddion canlynol sy'n niweidiol i iechyd pobl ac i safleoedd Ecolegol sensitif: Ocsidau o nitrogen (NOx), ? Sylffwr Deuocsid (SO2), Gronynnau, Carbon Monocsid (CO), Clorid ? Hydrogen (HCl), Fflworid Hydrogen (HF), Cyfansoddion Organig Anweddol (VOCs), Cadmiwm a Thaliwm a'u cyfansoddion (Cd TI &), ? Mercwri a'i gyfansoddion (Hg), ? Metelau eraill a deuocsin a ffwrn
 - Mae llosgi gwêr a phren gwastraff / pren wedi'i ailgylchu yn cynhyrchu cyfansoddion anweddol, organig arogl cryf sy'n niweidiol i iechyd pobl, a bydd yn cyfrannu ymhellach at yr arogl sy'n deillio

o'r stad gan gwmnïau eraill sy'n dal i fethu â rheoli arogleuon annymunol er gwaethaf ymyrraeth Asiantaeth yr Amgylchedd. Sut fydd Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Cyngor yn rheoli'r arogleuon o weithrediadau presennol ac o'r cais hwn?

- Mae trigolion Llangefni yn dioddef o allyriadau o fusnesau'r stad ddiwydiannol ar hyn o bryd. Gallai allyriadau pellach o'r fath ddatblygiad mawr fod yn niweidiol.
- Bydd yr arogl o'r gwaith yn anghynnes ac yn berygl i iechyd.
- Bydd y prif wyntoedd yn cario'r arogl i ganol y dref a bydd yn effeithio ar fusnesau ac yn andwyol i Llangefni.
- Yn wahanol i losgi disel / petrol mewn ceir a lorïau, mae llosgi 22,500 tonn o wêr / olew llysiâu adennill mewn un lleoliad sefydlog yn canolbwyntio'r llygredd mewn un ardal - Llangefni.
- Bydd yr arogl gwenwynig, llwch a sŵn a gynhyrchir gan y datblygiad yn cael effaith negyddol ar ansawdd bywyd trigolion Llangefni.
- Mae pryder ei bod yn annhebygol y cedwir at y terfyn 220mg/NM3 ar allyriadau simnai NOx o dan y Gyfarwydddeb Llosgi Gwastraff (CLIG) gyda'u technoleg diddymiad. Ar ben hynny, mae ansicrwydd ynglŷn â'r pren a fwydir i mewn i'r gwaith, gan gynnwys y swm a'r math o wastraff pren sydd i'w ddefnyddio, gan wneud y rhagfynegiadau ar gyfer allyriadau NOx ac eraill hyd yn oed yn llai dibynadwy.
- Mae'r risg o losgi digymell a ffrwydrad llwch mewn gweithfeydd pelenni pren a gweithfeydd hylosgi pren yn cael ei gydnabod yn eang, ond nid yw wedi cael ei gydnabod gan EcoPellets yn eu cais. Mae risgiau ffrwydrad yn gonsyrn neilltuol, oherwydd bod y safle ond 250 metr o eiddo preswyl, yn ogystal â bod yn gyfagos at safleoedd diwydiannol eraill.

(x) Cludiant

- Nid yw'r ffyrdd yn Llangefni wedi cael eu cynllunio ar gyfer defnydd trwm cyson gan gerbydau mawr.
- Nid yw'r lleoliad gwaith yn ymyl porthladd, nid yw'n hygyrch ar y rheilffyrdd oherwydd gormod o risgiau sy'n gysylltiedig â llifogydd, ac mae'n hollol ddibynnol ar gludiant ar y ffyrdd. Mae'r ffactorau hyn yn dangos nad yw'r lleoliad yn addas ar gyfer y gwaith hwn.
- Mae pryder ynghylch y swm uchel o symudiadau lori bob dydd a'i effaith ar y rhwydwaith ffyrdd lleol.
- A roddwyd cyfrif llawn am gludiant yn y swm o allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n cael ei arbed?
- Mae'r symudiadau lori amcangyfrifedig sy'n gysylltiedig â datblygu wedi eu tanamcangyfrif. A yw cludo symiau sylweddol o ludw gwaelod a lludw ymaith o'r safle wedi cael eu hystyried o fewn y symudiadau traffig?
- Ni chyflwynwyd manylion ynghylch sut y mae'r mynedfeydd i gerbydau yn mynd i gael eu haddasu er mwyn darparu ar gyfer y swm helaeth o nwyddau trwm sydd eu hangen.
- Nid yw'r ymgeisydd yn berchen ar y tir ar hyd y prif lwybr arfaethedig a bydd y mynediad oddi ar y brif ffordd stad ddiwydiannol i'r safle, ac unrhyw newidiadau iddi, yn amodol ar y perchennog tir.
- Mae mynedfeydd i'r brif briffordd o'r cais yn anfoddfaol.

(xi) Sŵn

- Bydd yr arogl gwenwynig, llwch a sŵn a gynhyrchir gan y datblygiad yn cael effaith negyddol ar ansawdd bywyd trigolion Llangefni.
- Bydd y datblygiad yn achosi niwsans sŵn i 2 eiddo preswyl yn Llwyn Ednyfed ar bellter o 200 metr a 250 metr o'r cais.

(xii) Materion Cynladwyedd (iv) a chaffael y pren i fwydo'r gwaith

- Mae'r cais cynllunio yn cynnwys gwybodaeth anghyson ynghylch y defnydd o ffynonellau lleol o bren.
- Mae'r cais cynllunio yn cynnwys gwybodaeth anghyson ynghylch dod o hyd i bren a deallaf fod mewn gohebiaeth gyda'r adran gynllunio, bod yr ymgeiswyr wedi dweud eu bod efallai y byddant mewn

gwirionedd yn mewnforio o Ogledd America ac nid yn defnyddio ffynonellau lleol. Nid yw cludo pren o Ogledd America yn gynaliadwy ac mae ganddo ôl-troed carbon mawr iawn.

- Ychydig iawn o orchudd coetir masnachol sydd yn Ynys Môn a Gwynedd; bydd y datblygiad yn ddibynnol ar fewnforion.
- Nid yw mewnforio gwêr a phren gwastraff o ardaloedd eraill yn y DU ar gyfer llosgi yn Llangefni yn dderbyniol ac nid yw'n wasanaeth y dylid ei ddarparu ar gyfer y fath bellter o ffynhonnell y gwastraff.
- Dylid cael gwared â gwastraff mor agos â phosibl at ei ffynhonnell yn unol â'r egwyddor agosrwydd gwastraff. Mae'n amlwg nad dyma yw'r achos yma, felly nid yw'r cais yn unol â Nodyn Cyngor Technegol 21 (Gwastraff).
- Nid oes unrhyw gyfiawnhad gan yr ymgeisydd dros leoli'r fath waith yn Llangefni. Mae'r holl bren ei fwydo'r gwaith yn cael ei fewnforio o'r hyn sy'n ymddangos fel pellteroedd mawr ar y ffordd. Bydd y pelenni a gynhyrchir wedyn yn cael eu hallforio i orsafoedd ynni glo sy'n gallu llosgi biomas, ac nid oes yr un o'r rhain yng Ngogledd Cymru.
- Nid oes tystiolaeth ynglŷn â'r 250,000 tonn o nwyon tŷ gwydr a arbedir ac mae'n or amcangyfrif.
- Dylid cadw gweithrediadau biomas i lefel gynaliadwy a rhaid iddo beidio â thynnu oddi ar adnoddau sydd ar gael yn ddomestig.
- Dylai cynhyrchion pren gael eu haildefnyddio a'u hailgylchu cyn cael eu troi'n danwydd.
- Nid oes ystyriaeth wedi ei rhoi i effaith datblygiad biomas ar y diwydiant paneli pren sy'n dibynnu ar bren gradd isel a phren wedi'i ailgylchu.
- Mae'r nifer o ddatblygiadau biomas a gymeradwywyd yn fwy na gallu'r DU i gael tanwydd i'r fath weithfeydd. Felly ni ddefnyddir pren lleol i fwydo i mewn yn y cais hwn.
- Mae perygl gwirioneddol a difrifol y bydd y galw cynyddol o brosiectau biomas yn cael effaith andwyol ar fioamrywiaeth yng Nghoetiroedd Cymru.
- Mae'r cais yn cyfeirio at olew had rēp, 'olewau eraill', gwêr a defnyddio olew coginio. Os yw'r cais yn cael ei ganiatáu, byddai'r cwmni yn cael caniatâd i ddefnyddio unrhyw fath o fiodanwydd, gan gynnwys olew palmwydd sydd y rhataf o ddigon o blith olew llysiâu, y mae'r galw amdano'n gyfrifol am ddinistrio coedwigoedd trofannol a mawndiroedd ar raddfa fawr, ac am ddadleoli cymunedau gwerinol a choedwig-ddibynnol mewn gwledydd o Indonesia i Golombia i Camerŵn.
- Bydd y cais yn arwain at feddiannu tir, datgoedwigo cenedlaethol a byd-eang, colli rhywogaethau, troseddau hawliau dynol a bydd yn effeithio ar hawl pobl i fwyd. Mae biodanwyddau a biomas yn gwneud newid yn yr hinsawdd yn waeth yn hytrach nag yn well.

(xiii) Effaith weledol

- Mae'r datblygiad arfaethedig i gael ei leoli ar ran uchaf y stad ddiwydiannol ac o ystyried ei raddfa enfawr, mäs a dyluniad, bydd yn ddatblygiad amlwg a negyddol o fewn y dirwedd.
- Mae'r safle arfaethedig yn safle maes glas, dylai'r cynnig fod ar safle tir llwyd.

(xiv) Ecoleg

- Bydd y cais yn llygru Cors Malltraeth a chaeau Talwrn.
- Eir tu draw i lefel isaf y Llwyth Critigol ar gyfer dyddodiad Nitrogen yn ACA Corsydd Môn, ACA Glantraeth, ACA y Twyni a SoDdGA Cors Ddyga. Hefyd mae dyddodiad glaw asid yn ACA Corsydd Môn, SoDdGA Cors Ddyga a'r GNL Nant y Pandy yn fwy na 1% o'r Llwyth Critigol. O gofio bod dyddodiad asid yn gysylltiedig â dyddodiad nitrogen, gall cyfraniad gwirioneddol y broses yn hawdd fod yn uwch.

(xv) Cyflogaeth a'r Economi

- Nid yw'r nifer a gyflogir yn ôl y cais yn ddigonol i warantu'r fath niwed annerbyniol i'r amgylchedd ac iechyd dynol o ran yr effaith weledol, ansawdd yr aer ac allyriadau.
- Bydd datblygiad o'r fath yn cael effaith negyddol ar dwristiaeth yn Llangefni ac Ynys Môn yn ei

chyfanrwydd. Bydd yn atal buddsoddi yn nyfodol economaidd yr ardal gan y bydd busnesau yn cael eu troi i ffwrdd rhag lleoli yn Llangefni.

- Nid yw'r cais yn cael ei ystyried yn gydnaws â busnesau eraill megis cynhyrchu bwyd, swyddfeydd, ystafelloedd arddangos ceir a manwerthu, sef y pwrpasau y defnyddir y stad ddiwydiannol ar eu cyfer ar hyn o bryd.
- Mae'r safle arfaethedig ar ran fwyaf deheuol y stad ddiwydiannol, sy'n golygu y bydd y prif wynt yn chwythu arogleuon, gronynnau, a synau a gynhyrchir yn y ffatri dros weddill y stad ddiwydiannol. Gall hyn arwain at i fusnesau presennol adleoli, i gwsmeriaid presennol yn mynd â'u busnes i rywle arall, a hefyd ni fydd yn cymell busnesau newydd i leoli ym Mryn Cefni.
- Dywed yr ymgeisydd fod y gwaith yn creu dros 250 o swyddi dros dro a 150 o swyddi parhaol. Gan fod y deunyddiau crai yn cael eu cludo i'r Ynys – mae'r swyddi coedwigaeth, swyddi cysylltiedig â chludiant, a swyddi eraill yn debygol o gael eu creu tu allan i Ynys Môn. Nodir o fewn y datblygiad y bydd 60/62 swyddi'n cael eu creu yn uniongyrchol gan y cais.
- Bydd ymarferoldeb y cais hwn ac unrhyw swyddi sy'n gysylltiedig yn cael eu heffeithio gan unrhyw addasiadau yn y dyfodol i dariffau bwydo-i-mewn y Llywodraeth i gymell datblygiad Ynni Adnewyddadwy.
- Mae datblygiad o'r fath yn gam yn ôl a bydd yn cael effaith negyddol cyffredinol ar Llangefni.

(xvi) Lleoliad

- Mae'r cais yn ddatblygiad 'cymydog drwg' a dylid ei ystyried yn annerbyniol mor agos at fusnesau ym Mryn Cefni, eiddo preswyl, y parc gwledig pysgodfa fras sydd eto i'w ddatblygu, a chanol tref Llangefni.

5. Hanes Cynllunio Perthnasol

34C40 - Codi adeiladau ar gyfer peirianeg a storio cemegol yn Peboc Llangefni- **Cymeradwywyd** 20/02/85

34C40A - Ymestyn adeiladau ar gyfer peirianeg a storio cemegol yn Peboc Llangefni- **Cymeradwywyd** 20/02/85

34C40D - Newidiadau ac estyniadau i adeiladau presennol, codi adeilad lles a chynhyrchu newydd, creu maes parcio a thirlunio yn Peboc, Llangefni - **Cymeradwywyd** 02/12/92

6. Prif Ystyriaethau Cynllunio

Mae'r datblygiad arfaethedig o fewn tir a ddyrannwyd yng Nghynllun Datblygu Unedol Ynys Môn sydd Wedi'i Stopio ar gyfer tir cyflogaeth o fewn Stad Ddiwydiannol Bryn Cefni. Mae'r cais ar gyfer cyfleuster biomas a chynhyrchu pelenni pren sy'n aildefnyddio pren a gwastraff gwêr a fyddai fel arall yn cael ei dirlenwi; ystyrir bod y dechnoleg yn ddull cynaliadwy o drin a delio â gwastraff a chynhyrchu pelenni pren carbon niwtral adnewyddadwy i'w defnyddio mewn cyfarpar llosgi diwydiannol a domestig.

Gofynion Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff, ynghyd ag amcanion y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol, yn amlinellu'r angen i ddatblygu rhwydwaith cynaliadwy o gyfleusterau ar gyfer trin gwastraff gyda phwyslais arbennig ar yr angen i ddarparu cyfleusterau ar gyfer aildefnyddio ac ailgylchu gwastraff.

Mae'r galw am aildefnyddio neu ailgylchu deunyddiau gwastraff wedi cynyddu'n sylweddol mewn ymateb i'r Gyfarwydddeb Ewropeaidd drwy'r Rheoliadau Tirlenwi (Cymru a Lloegr) 2000, i ailgyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi i ffynonellau lle gall defnydd cynaliadwy gael ei wneud ohono.

Mae'r ymgeisydd yn nodi'r bwriad i ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf ar gyfer cynlluniau biomas er mwyn darparu gwres ac ynni i gynhyrchu pelenni pren gyda'r trydan dros ben yn cael ei allforio i'r grid.

Nodyn Cyngor Technegol 8: Ynni Adnewyddadwy: mae hwn yn nodi'r cyfleoedd i drin gwastraff mewn dull cynaliadwy ac yn rhestru cynlluniau gan gynnwys ynni o wastraff, cyfuno gwres ac ynni a darparu gwres ar gyfer y gymuned.

Mae'r datblygiad mewn egwyddor yn adlewyrchu amcanion cenedlaethol a rhanbarthol a chanllawiau ynghylch y dulliau mwyaf cynaliadwy o ymdrin â gwastraff a darparu Ynni Adnewyddadwy ac mae'n ategu dyheadau rhaglen Ynys Ynni Cyngor Sir Ynys Môn. Fodd bynnag, mae pryderon mawr wedi cael eu codi fel rhan o'r broses gynllunio ynghylch hyfywedd datblygiad o'r fath, sef:

Ansawdd Aer

Mae agweddau amrywiol ar y cais hwn sydd â'r potensial i achosi llygredd a thrwy hynny effeithio ar ansawdd aer lleol. Yn seiliedig ar y wybodaeth a gyflwynwyd fel rhan o'r cais hwn mae Adran Iechyd yr Amgylchedd yn bryderus iawn gyda'r cais ac wedi ymgynghori gydag ymgynghorwyr arbenigol ansawdd aer - Bureau Veritas sydd wedi helpu ffurfio sylwadau canlynol yr Awdurdod ar y cais.

Mae pryderon mawr ynghylch effeithiolrwydd yr uchder simneiau gwahanol ar gyfer y safle biomas solet a hylif, 40m a 30m yn y drefn honno. Yr arfer gorau arferol yw cael dwy simnai gerllaw ar yr un uchder, er mwyn cael gwell gwasgariad o fwg, a hefyd i osgoi mwg y simnai leiaf rhag effeithio ar y simnai uwch (a'r adeilad biomas solet talach) a thrwy hynny atal gwasgariad effeithiol. Mynegwyd pryder nad yw'r uchder simnai yn ddigon uchel i sicrhau nad yw'r amcan NO2 1 awr tymor byr yn cael ei dorri o fewn y stad ddiwydiannol.

Mae'r ymgeisydd wedi osgoi'r mater o effeithiau cronol. Ni chafwyd unrhyw sôn am gyfraniad llygru'r 3 simnai arall sy'n gysylltiedig â'r cais. Nid oes unrhyw wybodaeth wedi'i darparu o fewn yr Asesiad Ansawdd Aer am unrhyw ddatblygiadau eraill sy'n achosi llygredd yn lleol, e.e. y ffatri gaws ymhlith eraill. Sonir am yr orsaf bŵer biomas a gymeradwywyd ym Mhenrhos, Caergybi; fodd bynnag, nid yw ei heffaith gronol wedi cael ei ystyried fel rhan o'r cais hwn.

Mae'r modelu Ansawdd Aer a gwasgariad atmosfferig yn seiliedig ar ddata meterolegol RAF Fali sy'n arfordirol o ran natur ac yn 15 milltir o Langefni. Ystyrir nad oedd y data a ddefnyddir fel rhan o'r modelu yn gyson â hinsawdd micro Llangefni gan nad yw'n cymryd i ystyriaeth y gwrthdroadau lleol yn enwedig. Awgrymwyd y dylai'r modelu atmosfferig fod wedi defnyddio data met wedi'i syntheseiddio i safle penodol y Rhagfynegiadau Tywydd Cenedlaethol, yn hytrach na data ar gyfer lleoliad gwahanol yn eu modelu gwasgariad, a hefyd monitro meterolegol lleol. Gallai'r data hwn o bosibl roi canlyniadau gwahanol iawn i'r hyn sydd wedi cael ei gynhyrchu.

Ystyrir felly gan fod:

- uchder simneiau o 30m a 40m,
- allyriadau o'r cais sy'n uchel iawn ar gyfer gwaith unigol,
- dim ystyriaeth wedi ei rhoi i effeithiau cronol llygrwyr eraill,
- dim ystyriaeth wedi ei rhoi i'r gwrthdroadau lleol sy'n digwydd yn Llangefni.

Y byddai cynnig o'r fath yn defnyddio'r holl lwfans a ddyrannwyd i'r stad ddiwydiannol o ran terfynau allyriadau, a allai yn ei dro rwystro datblygiadau o fewn Stad Ddiwydiannol Bryn Cefni yn y dyfodol.

Drwy gydol y broses gynllunio mae'r ymgeiswyr wedi bod yn ymwybodol o farn a phryderon a godwyd gan yr Awdurdod Lleol, ac yn seiliedig ar y wybodaeth a gyflwynwyd, nid yw'r pryderon hyn wedi cael sylw. Fodd bynnag, mae'r ymgeisydd wedi cyd-olrhain y cais cynllunio gyda phroses Drwydded Amgylcheddol Asiantaeth yr Amgylchedd. Fel rhan o'r broses hon, ymgynghorwyd â'r Awdurdod Lleol ynghylch y wybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd ar 27 Chwefror. Cafodd y data ei basio ymlaen i Bureau Veritas, ac maent o'r farn nad yw'r deunydd newydd yn mynd i'r afael ag unrhyw un o'r materion a godwyd yn flaenorol, ac mae'r

sylwadau fel y nodwyd yn yr adroddiad hwn yn sefyll.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gyfrifol am ansawdd a safonau aer y sir. Er gwaethaf dyletswyddau Asiantaeth yr Amgylchedd wrth ganiatáu cais o'r fath, mae ansawdd yr aer yn ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth benderfynu ar y cais, ac mae hefyd yn ystyriaeth sydd â nifer o effeithiau ymledol ar faterion eraill sydd i'w hystyried fel rhan o'r cais, sef effaith ecolegol a sterileiddio economaidd y byddaf yn mynd i'r afael â nhw'n ddiweddarach. Noder bod Ansawdd Aer ar Ynys Môn yn dda iawn ac ni fu angen cyhoeddi unrhyw Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer. Felly, yn seiliedig ar y wybodaeth a gyflwynwyd mewn perthynas ag ansawdd aer a chanllawiau a nodir o fewn y polisïau cynllunio cenedlaethol a lleol a nodir yn y ddogfen hon, ac oherwydd y gwrthwynebiadau cryf a leisiwyd gan aelodau o'r cyhoedd yn ystod y broses ymgynghori, ystyrir na ellir cefnogi'r cais.

Ecoleg

Fel rhan o'r broses ymgynghori dywedodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru bod y crynodiad amgylcheddol a ragwelir (PEC) ar gyfer nitrogen a dyddodiad asid yn uwch na 70% o'r llwythi isafswm critigol (CL) a osodwyd ar gyfer nodweddion ACA Corsydd Môn ac mae gormodiant rhagweledig o'r trothwy cyfraniad proses 1% (PC) ar gyfer dyddodiad asid a maetholion nitrogen mewn perthynas â nodweddion ACA Corsydd Môn. Mae'r wybodaeth hon wedi ei hanfon hefyd i ymgynghorwyr yr Awdurdod ar ansawdd aer - Bureau Veritas.

Oherwydd y lefelau uchel o allyriadau nitrogen sy'n gysylltiedig â'r datblygiad, bydd angen i'r cais gael ei asesu ymhellach o dan y Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd Naturiol a Rhywogaethau 2010 (Cydgrynhoad o Reoliadau a diwygiadau 1994) ac felly bydd yn ofynnol cael asesiad priodol. Diben Asesiad Priodol yw canfod yr effeithiau posibl a all y cais eu cael ar nodweddion o ddiddordeb safle Ewropeaidd dynodedig ac mae'r cyfrifoldeb am yr asesiad yn aros gyda Chyngor Sir Ynys Môn fel yr awdurdod cymwys.

Fel y soniwyd eisoes, mae'r ymgeisydd wedi cyd-olrhain y ceisiadau cynllunio a chaniatâd amgylcheddol ac wedi nodi bod angen Asesiad Priodol fel rhan o'r cais am drwydded, ac y byddent yn gwneud cais ar i'r Awdurdod Lleol fabwysiadu asesiad priodol Asiantaeth yr Amgylchedd unwaith y mae wedi ei gwblhau.

Ar y pwynt olaf, mae Ecolegydd y Cyngor yn cadarnhau y byddai addasrwydd asesu priodol Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer defnydd y Cyngor yn dibynnu ar berthnasedd y deunydd i ganiatâd y Cyngor (= Cynllunio), ac mae'n bosibl bod data pellach tu hwnt i'r hyn a ddefnyddir gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Er gwaethaf hyn, mae'r Ecolegydd yn deall na fyddai'r wybodaeth a gyflwynwyd i Asiantaeth yr Amgylchedd fel rhan o'r cais am Drwydded Amgylcheddol sy'n ymwneud ag allyriadau wedi mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn flaenorol yn gysylltiedig â'r cais cynllunio. Ni fyddai Cyngor Sir Ynys Môn fel yr awdurdod cymwys mewn sefyllfa i wneud (neu fabwysiadu) asesiad priodol onid oedd yn fodlon bod hyn yn seiliedig ar wybodaeth briodol / data ar:

- Senarios rhyddhau allyriadau sy'n addas o realistig (o'r simnai briodol ayb)
- Effeithiau cronol o lygrwyr eraill
- Data meteorolegol lleol sy'n cymryd i ystyriaeth y gwrthdroadau lleol.

Mae ecoleg yn ystyriaeth gynllunio berthnasol, ac o dan y Rheoliadau Cynefinoedd (2010) rhaid i'r ymgeisydd roi data a gwybodaeth i fodloni'r Awdurdod Cynllunio Lleol na fyddai unrhyw effeithiau sylweddol tebygol ar ACA Corsydd Môn. Mae'r ymgeisydd wedi methu â chyflwyno gwybodaeth sydd ei hangen yn rhesymol i'r Awdurdod Lleol fedru paratoi asesiad priodol, ac mae hyn yn cael ei gefnogi gan ymateb Bureau Veritas dyddiedig 28 Mawrth, 2012.

Sŵn

Fel y nodwyd yn ymateb yr Adran Iechyd yr Amgylchedd i'r ymgynghoriad, mae'r wybodaeth sy'n cefnogi'r cynnig mewn perthynas â sŵn yn anghywir.

Mae'r Awdurdod wedi dweud wrth yr ymgeisydd ar sawl achlysur nad yw lefelau sŵn mewn eiddo preswyl ar Ffordd Glanhwfa a Llwyn Ednyfed wedi cael eu mesur yn gywir. Mae Atodiad A3 o TAN 11: Sŵn yn datgan na ddylai lefelau sŵn NEC gael eu defnyddio i asesu effaith sŵn diwydiannol ar eiddo preswyl. Mae'r asesiad hwn yn cael ei ddefnyddio i benderfynu ar effeithiau sŵn diwydiannol ar geisiadau am ddatblygiadau preswyl. Mewn gwirionedd y safon y dylid ei ddefnyddio i bennu effeithiau prosesau diwydiannol arfaethedig ar eiddo preswyl yw un BS4142: 1997 fel yr awgrymir yn atodiad B17 o TAN11.

Rhaid nodi bod y gweithrediadau sy'n gysylltiedig â'r cais hwn i fod i redeg 24 awr y dydd. Felly, ystyrir bod yr ymgeisydd wedi gwneud nifer o honiadau gor-optimistaidd yn y cyflwyniad ac mae'r sŵn a chyfrifo effeithiau sŵn amledd tonaidd / isel wedi eu tanamcangyfrif yn sylweddol. Mae wedi cael ei datgan bod y sŵn o'r datblygiad yn debygol o fod yn 'gyson' a heb ysgogiadau megis ffrwydradau, cleciau, clatro neu synau dyrnu ac y bydd 'yn weddol fand eang' sy'n golygu nad yw'n cynnwys gwichiadau, hisian, neu sŵn hymio. Dylid tynnu sylw at y rhestr o ffynonellau sŵn posibl yn sgil y datblygiad hwn fel y disgrifir nhw gan yr ymgeisydd: -

- Symudiadau cerbydau a gweithgareddau yn yr iard storio logiau;
- Tynnu rhisgl a chreu sglodion o logiau a darnau pren a fewnforiwyd i'r safle;
- Melin falu ar gyfer sglodion i fewnbynny i'r Prosesau Sychwr / Peledu;
- Sŵn hydrologig o feltiau cludo a lloriau symudol sy'n cludo deunyddiau i'r offer Sychu a CHP;
- Sŵn o'r Adeilad Sychwr;
- Sŵn o'r Adeilad Boeleri;
- Sŵn o'r Adeilad Tyrbin;
- Sŵn o'r Adeilad Pelenni.

Dylid tynnu sylw hefyd at y 90 ffan, yn 93dB yr un, sydd i'w gosod ar yr adeilad biomas yn unig.

Mewn gohebiaeth gyda'r ymgeisydd, awgrymwyd y dylid cyflwyno gwybodaeth ategol i gefnogi'r sylwadau ar sŵn amledd tonyddol / isel. Mewn ymateb cafodd yr Awdurdod Lleol ohebiaeth anghywir gan yr ymgeisydd yn datgan nad oedd 'datblygiadau tebyg sy'n bodoli eisoes wedi cael unrhyw broblemau sŵn'. Rhaid pwysleisio bod yr holl geisiadau cynllunio yn seiliedig ar eu teilyngdod unigol eu hunain, ac na ddylid tynnu cymariaethau rhwng datblygiadau gwahanol; fodd bynnag, rydym yn cael ar ddeall o erthyglau yn y Ross-shire Journal a'r Highland News bod gwaith tebyg yn Invergordon, yr Alban y cyfeiriwyd ato gan yr ymgeisydd, wedi bod yn destun i gwynion sŵn.

Rydym yn dod i gasgliad bod y cyfrifiadau i benderfynu p'un a fydd lefelau annerbyniol o sŵn yn deillio o'r datblygiad wedi cael eu gwneud yn anghywir gan yr ymgeisydd. Yn seiliedig ar gyfrifiadau ac asesiad sŵn cefndir a wnaed gan Adran Iechyd yr Amgylchedd, yn yr eiddo agosaf sy'n sensitif sŵn (Llwyn Ednyfed), ystyrir y bydd cwynion yn ymwneud â sŵn yn debygol.

Mae sŵn yn ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth benderfynu ar y cais. Mae'r ymgeisydd wedi methu dangos na fydd y lefelau sŵn sy'n gysylltiedig â'r datblygiad yn debygol o arwain at gwynion gan drigolion eiddo sy'n agos at y datblygiad. Felly, yn seiliedig ar y wybodaeth a gyflwynwyd mewn perthynas â sŵn, y canllawiau a nodir o fewn y polisiau cynllunio cenedlaethol a lleol a nodir yn y ddogfen hon, ac oherwydd y gwrthwynebiadau cryf a leisiwyd gan aelodau o'r cyhoedd yn ystod y broses ymgynghori, ystyrir na ellir cefnogi'r cais.

Cludiant

Mae'r Asesiad Cludiant a gyflwynwyd fel rhan o'r cais hwn wedi arwain at y pryderon canlynol

- Cyfleusterau parcio priodol o fewn y safle datblygu arfaethedig.
- Creu mynedfeydd safle priodol
- Lledu'r ffordd mewn manau perthnasol.

- Traffig sy'n gysylltiedig â chyfnod adeiladu'r datblygiad.
- Cyfrifiadau sy'n gysylltiedig â thraffig a gynhyrchir drwy fewnforio pren a gofynion eraill ar y safle.
- Cyfrifiadau sy'n gysylltiedig â thraffig a gynhyrchir wrth allforio pelenni, lludw a gwastraff oddi ar y safle.
- Profion capasiti cyfford

Mae'r ymgeisydd wedi cael gwybod am y pryderon hyn ar nifer o achlysuron gan yr Awdurdod Lleol. Fodd bynnag, yr ymateb cychwynnol a dderbyniwyd gan yr ymgeisydd mewn perthynas â materion cludiant a phriffyrdd yw y gellir ymdrin â nhw'n rhesymol drwy weithredu amodau cynllunio.

Nodir y byddai'n bosibl ymdrin â pharcio ar y safle drwy amod priodol sy'n ei gwneud yn ofynnol cyflwyno cynllun i'w gymeradwyo cyn cychwyn y datblygiad ar y safle.

Y prif lwybr mynediad arfaethedig ar gyfer mewnforio pren yw o brif gylchfan Parc Cefni tuag at Llwyn Ednyfed a'r Gwaith Dŵr. Mae'r ffordd fynediad hon yn briffordd fabwysiedig, o led trac sengl ac nid oes ond wyneb rhannol arni. Ni chafwyd manylion ynglŷn â sut mae'r ymgeisydd am uwchraddio'r ffordd fynediad a'r fynedfa i'r safle yn y lleoliad hwn er mwyn darparu ar gyfer defnydd HGV ar raddfa fawr. Ychwaith ni chynhwyswyd y ffordd a'r mynediad oddi mewn i ffin datblygu'r cais felly nid oedd modd i'r elfen hon o'r datblygiad gael ei rheoli trwy amodau cynllunio.

Mae ail bwynt mynediad i'r safle i gael ei ddefnyddio ar gyfer allforio'r pelenni pren, trwy ddefnyddio'r fynedfa bresennol o'r ffordd gyswllt ddiwydiannol uchaf nesaf at y Ganolfan Dechnoleg. Mae'r cysylltiad yn ymddangos fel petai'n agos iawn at geg y gyffordd, a chwestiynir addasrwydd mynedfa yn y lleoliad hwn ar gyfer symudiadau lefel uchel o gerbydau nwyddau trwm. Fodd bynnag, ni chafwyd unrhyw fanylion i sicrhau bod hyn yn addas ar gyfer y defnydd arfaethedig. Hefyd mae'n ymddangos bod y gwaith cysylltu a fyddai'n ofynnol i adeiladu'r mynediad gogleddol hwn y tu allan i ffin llinell goch y cais, ac eto ni ellir ei reoli drwy amodau cynllunio.

Er nad yw perchnogaeth tir yn ystyriaeth gynllunio, mae rhai materion sy'n gysylltiedig ag argaeledd tir sy'n eiddo i'r ymgeisydd er mwyn ymgymryd â'r gwelliannau gofynnol i'r mynedfeydd safle a lledu'r ffordd a nodwyd yn y cais cynllunio. Codwyd mater perchenogaeth tir gyda'r ymgeisydd ar sawl achlysur, ac rwyf wedi derbyn y sylwadau canlynol mewn cyfarfod dyddiedig 13eg Rhagfyr (i) Mae gennym bwyntiau mynediad eraill y gallem eu defnyddio os yw'r llwybr mynediad yn dod yn broblematig. (ii) Mae digon o dir o fewn perchnogaeth yr ymgeisydd i wneud y gwaith uwchraddio gofynnol i'r ffordd fynediad a'r fynedfa i'r safle.

Ers y cyfarfod, nid yw'r Awdurdod wedi derbyn gwybodaeth bellach neu ddiwygiadau i'r cais mewn perthynas â ffordd fynediad a'r fynedfa i'r safle yn y lleoliad hwn.

Nodir hefyd nad oes unrhyw fanylion wedi eu darparu fel rhan o'r cais hwn i gadarnhau patrymau dosbarthiad teithiau naill ai yn ystod y gwaith adeiladu, nac mewn perthynas â staff, danfon ac allforio cynnyrch yn y dyfodol; ac nid oes unrhyw brofion cyffordd capasiti wedi cael eu gweithredu. Mae gan yr Awdurdod Priffyrdd bryderon mawr ynghylch gallu'r rhwydwaith ffyrdd presennol i ddelio â'r swm ychwanegol o draffig trwm a fyddai'n cael ei gynhyrchu fel rhan o'r datblygiad. Mae'r ymgeiswyr yn cyfarfod â'r Adran Priffyrdd ar 31 Ionawr, er mwyn ymdrin â'r materion hyn; fodd bynnag, hyd yma nid oes unrhyw wybodaeth neu ddata wedi ei gyflwyno i ymdrin â phryderon yr Awdurdod Lleol.

Mae materion priffyrdd yn ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth benderfynu ar y cais. Mae'r ymgeisydd wedi methu â bodloni'r Awdurdod Priffyrdd Lleol y bydd y manylion a gyflwynwyd ynghylch y mynedfeydd arfaethedig i ac o'r safle yn ddigonol ar gyfer datblygiad graddfa fawr o'r fath. Ystyrir hefyd nad oes digon o ddata wedi ei gyflwyno i gefnogi'r cais i fodloni'r Awdurdod Priffyrdd Lleol na fydd unrhyw effeithiau andwyol ar y rhwydwaith ffyrdd lleol. Felly yn seiliedig ar yr uchod, y canllawiau a nodir mewn polisïau cynllunio cenedlaethol a lleol a nodir yn y ddogfen hon, a phryder y cyhoedd ynghylch materion cludiant yn ystod y broses ymgynghori, ystyrir na ellir cefnogi'r cais

Tirwedd ac Effaith Weledol

I gefnogi'r cais cynllunio hwn, cyflwynodd yr ymgeisydd Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol (LVIA) gan ddefnyddio'r canllawiau a argymhellir gan y Sefydliad Tirwedd. Ystyrir bod y LVIA wedi bod yn or-hael yn ei asesiad o dirwedd ac effaith weledol. Mae'r ymgeisydd yn honni nad yw'r cynllun arfaethedig yn cynrychioli mwy nag effaith gymedrol o safbwynt tirwedd ac effaith weledol o unrhyw un o'r safbwyntiau a ddewiswyd, o ystyried ei gyd-destun diwydiannol.

Mae'r ffotogyfosodiadau a'r cynlluniau a gyflwynwyd fel rhan o'r datblygiad hwn yn dangos y bydd y cais yn amlwg o fewn ei leoliad lleol ac yn ehangach, oherwydd ei uchder, graddfa a maint o'i gymharu ag adeiladau eraill mwy cymedrol eu maint ar stad defnydd cymysg Bryn Cefni. Mae'r safle hefyd mewn safle uchel o fewn y stad ddiwydiannol a'r gefnwlad a byddai'n nodwedd amlwg a dominyddol iawn. Mae hefyd yn berthnasol ystyried effaith weledol y mwg gweladwy a fydd yn deillio o'r ddwy simnai biomas solet a hylif mewn rhai amodau tywydd. Gyda hyd y bluen fwg weladwy sy'n ymwthio allan ar gyfartaledd 20-24 metr uwchben y simneiau, bydd y datblygiad yn llawer mwy gweladwy, yn enwedig o fewn y lleoliad tirlun ehangach.

Cyflwynwyd lliniaru ychwanegol fel gwelliant i'r cais gwreiddiol mewn perthynas â chynllun lliw'r adeiladau; cydnabyddir ei fod yn helpu i leihau effaith y datblygiad i ryw raddau. Fodd bynnag, credir nad yw hyn yn ymdrin â'r materion mwy sylfaenol fel graddfa, màs ac uchder y cais a'i effaith ar y cyd-destun lleol a lleoliad y dirwedd ehangach.

Mae effaith weledol ac effaith ar y dirwedd yn ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth benderfynu ar y cais. Ystyrir bod yr ymgeisydd wedi methu lliniaru'n foddhaol effeithiau'r datblygiad o ran graddfa, màs ac uchder o fewn y dirwedd ehangach. Felly, yn seiliedig ar y wybodaeth a gyflwynwyd, y canllawiau a nodir mewn polisïau cynllunio cenedlaethol a lleol a nodir yn y ddogfen hon, ac oherwydd y gwrthwynebiadau cryf a leisiwyd gan aelodau o'r cyhoedd yn ystod y broses ymgynghori ynghylch effeithiau gweledol y cais, ystyrir na ellir cefnogi'r cais.

Effaith economaidd

Cydnabyddir y gallai oddeutu 62 o swyddi parhaol gael eu creu fel rhan o'r datblygiad arfaethedig gyda chyfraniad blynyddol o dros £3 miliwn i'r economi lleol mewn cyflogaeth weithredol uniongyrchol. Yn ogystal â hyn, amcangyfrifir y bydd cyfartaledd o 250 o swyddi yn cael eu creu dros 2 flynedd yn ystod y gwaith adeiladu. Yn natganiad yr ymgeisydd, dywedir y bydd 100 o swyddi ychwanegol yn cael eu creu fel rhan o'r cais drwy gludo a dosbarthu pren / pelenni, ac o fewn y diwydiant coedwigaeth. Nodir yn y cais y bydd y 200,000 tonnell o adnodd pren fforestydd yn dod o Ardal Goedwig Coed y Mynydd ac Ardal Goedwig Coed y Gororau. Bydd y rhan fwyaf o'r 175,000 tonnell o bren wedi'i ailgylchu yn cael ei brynu'n lleol yng Ngogledd Cymru, Canolbarth Cymru a Glannau Merswy. Bydd y 22,500 tonnell o fomas hylif yn cael eu prynu'n bennaf o fewn Gogledd Cymru, Glannau Merswy a Gogledd Orllewin Lloegr. Yn dilyn cyfarfod gyda'r ymgeiswyr ar y 13 Rhagfyr, 2011 nodwyd er gwaethaf y wybodaeth a gyflwynwyd yn y cais:- Bydd yr holl bren fforestydd yn dod o ffynonellau yn yr Alban a Cumbria, a bydd y rhan fwyaf o bren gwastraff yn cael ei brynu lle bo ar gael - Glannau Merswy a Manceinion Fwyaf, a bydd y gwêr sydd i'w ddefnyddio yn y pwerdy biomas hylif yn dod o safle ar Lannau Merswy. Felly mae angen gofyn cwestiynau ynghylch y manteision economaidd cyffredinol lleol sydd gan gais o'r fath. Ar wahân i'r 62 o swyddi a grëir yn uniongyrchol gan y cais yn Llangefni, o ystyried ble mae'r pren bwydo'n mynd i gael ei brynu, faint o'r 100 o swyddi ychwanegol fydd yn cael eu creu yn lleol?

Mae stad Bryn Cefni yn gartref i nifer o ddefnyddiau diwydiannol, cynhyrchu bwyd, swyddfeydd, manwerthu, hyfforddiant, yn amrywio o A1 (Siopau), B1 (Busnes), B2 (Diwydiannol Cyffredinol), B8 (Storio / Dosbarthu), D1 (sefydliadau dibreswyl), Sui Generis (defnydd nad yw'n dod o fewn dosbarth defnydd penodol) o fewn y Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd. Er bod y cais yn cyfrannu tuag at yr economi lleol drwy fuddsoddi o'r tu allan a chreu swyddi, mae effaith proses ddiwydiannol o'r fath ar raddfa fawr ar yr hyn y gellid ei ddisgrifio fel

stad busnes / cyflogaeth defnydd cymysg wedi codi pryderon sylweddol a gwrthwynebiadau ynghylch ei gydnawsedd.

Mae'r cais ar gyfer gwaith CHP, fodd bynnag nid yw'n bwriadu cysylltu'r gwres a gynhyrchir fel rhan o'r broses i fusnesau a swyddfeydd ar y stad neu'r gymuned leol. Yn hytrach, bydd y gwres ac ynni dros ben yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cynhyrchu pelenni ar y safle.

Felly ni fydd y datblygiad yn darparu cymhelliant i ddenu buddsoddiad arall i'r ardal er mwyn sicrhau cyflenwad o wres ac ynni o'r gwaith hwn. Yn wir mewn e-bost gan yr ymgeisydd ar y 7 Gorffennaf, 2011 cadarnhawyd y bydd y gwres safon uchel yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cynhyrchu pelenni a bod y dŵr gwastraff (30-50°C) yn cael ei ollwng trwy'r garthffos fudr, gan ei bod yn aneconomaidd harneisio ynni oddi ar y safle. Felly, ymddengys na fydd unrhyw weithrediadau parhaus neu arfaethedig yn yr ardal ar wahân i'r gwaith cynhyrchu pelenni arfaethedig, a fydd yn elwa o'r gwres gormodol a ddarperir gan y cais hwn. Yn ogystal â hyn, mae'r cais yn nodi bod y mwyafrif helaeth o'r pelenni pren a gynhyrchir ar y safle yn mynd i ddisodli glo mewn gorsafoedd ynni sy'n llosgi glo, ac nid oes yr un o'r rhain yn Ynys Môn neu hyd yn oed yng Ngogledd Cymru - Fiddlers Ferry, Swydd Gaer yw'r un agosaf.

Rhaid gofyn cwestiynau ynghylch y cyfiawnhad dros leoli datblygiad o'r fath yn Llangefni lle nad oes angen ar hyn o bryd am y gwres a gynhyrchir ar y safle, lle na fyddai'r gwres a gynhyrchir ar gael i fusnesau yn yr ardal heblaw ar gyfer cynhyrchu pelenni, a bod y marchnadoedd mwyaf hyfyw ar gyfer y pelenni a gynhyrchir yn ymddangos fel petaent yng Ngogledd Lloegr, neu yn yr Almaen, fel y nodwyd gan yr ymgeisydd mewn cyfarfod ar y 13 Rhagfyr, 2011.

Er bod yr Adran Datblygu Economaidd yn gefnogol mewn egwyddor i'r datblygiad arfaethedig, mae pryder am yr effeithiau negyddol posibl ar weithrediadau busnes presennol yn Llangefni a gallu'r dref i ddenu buddsoddiad busnes newydd yn y dyfodol. Nodir y dylai'r awdurdod cynllunio sicrhau bod unrhyw effeithiau o'r fath yn fach iawn cyn cymeradwyo'r prosiect. Yn seiliedig ar y wybodaeth a gyflwynwyd fel rhan o'r cais, y sylwadau a dderbyniwyd gan ymgynghoreion statudol mewn perthynas ag effeithiau posibl ar ansawdd aer, sŵn, effeithiau ar ecoleg, effaith ar y rhwydwaith ffyrdd lleol, effaith weledol ac effaith ar y dirwedd, a'r farn gyhoeddus negyddol ynghylch y datblygiad, nid ydym wedi gallu lliniaru'r pryderon a godwyd gan yr Adran Datblygu Economaidd. Felly, ystyrir y gallai'r datblygiad arfaethedig gael effaith andwyol bosibl ar yr economi lleol ac na ellir cefnogi'r cais.

Cynaladwyedd

Mae'r cais i gynhyrchu 31 MW o drydan gan ddefnyddio deunydd biomas a deunydd biomas gwastraff a chynhyrchu 100,000 tonnell o belenni pren carbon niwtral yn cynrychioli cyfraniad tuag at dargedau gwastraff Cynulliad Cymru ac Ynni Adnewyddadwy ac mewn egwyddor mae'n cael ei ystyried yn gynaliadwy.

Fel rhan o'r broses gynllunio cwestiynwyd cymwysterau cynaliadwy y cais mewn perthynas â dod o hyd i'r pren bwydo a'r milltiroedd ffordd tebygol a gynhyrchir drwy fewnforio pren ac allforio pelenni pren.

Mae'r cais yn nodi bod 22,500 tonnell o wêr a ddiffinnir fel gwastraff o dan y Gyfarwyddeb Llosgi Gwastraff i gael ei fewnforio i Langefnï o ffynonellau yn bennaf o fewn Gogledd Cymru, Glannau Merswy a Gogledd Orllewin Lloegr, ar gyfer ei losgi fel rhan o'r broses ynni a gwres cyfunedig Biomas Hylifol. Mae'r rhan fwyaf o'r 175,000 tonnell o bren wedi'i ailgylchu sy'n cael ei ddiffinio fel gwastraff o dan y Gyfarwyddeb Llosgi Gwastraff yn cael ei fewnforio i Langefnï o ffynonellau yng Ngogledd Cymru, Canolbarth Cymru a Glannau Merswy, ar gyfer ei losgi fel rhan o'r broses ynni a gwres cyfunedig Biomas Solet. Mae 200,000 tonnell o'r adnodd pren fforestydd sy'n ofynnol ar gyfer cynhyrchu pelenni pren yn cael ei gludo o Ardal Goedwig Coed y Mynydd ac Ardal Goedwig Coed y Gororau yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru. Nodwyd drwy e-bost ar 21 Gorffennaf, 2011 gan yr ymgeisydd nad ydynt yn gwybod am unrhyw ffynonellau o wêr sydd ar gael yng Ngogledd Cymru, felly bydd yn dod o gwmnïau yn Leek - Swydd Stafford, Penrith -

Cumbria a Widnes - Swydd Gaer . Bydd y coed adeiladu sydd wedi'i ailgylchu yn cael eu prynu o gwmni ym Manceinion; gyda'r posibilrwydd y bydd rywfaint o dunelledd ar gael yng Ngogledd Cymru. Byddai'r pren fforestydd yn tarddu o'r Alban a Chanada.

Oherwydd diffyg argaeledd o bren lleol yn gysylltiedig â'r cais, cwestiynwyd elfen gynaliadwy'r datblygiad . Arweiniodd hyn at i'r ymgeisydd ailadrodd argaeledd lleol y pren yn y wybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd ar 18 Tachwedd, 2011.

Mewn gwrthgyferbyniad i'r wybodaeth ddiwygiedig a gyflwynwyd, nodwyd mewn cyfarfod gyda'r ymgeisydd ar 13 Rhagfyr, 2011 y byddai'r pren fforestydd ar gael o ffynonellau o'r Alban a Cumbria ac y byddai'n cael ei gludo dros y môr i ddoc Mostyn ac yna'n dod i Langefni gyda HGV. Bydd y rhan fwyaf o bren gwastraff yn cael ei brynu lle bo ar gael - Glannau Merswy a Manceinion Fwyaf, a bydd y gwêr ddod o safle ar Lannau Merswy. Nodwyd hefyd yn y cyfarfod y byddai'r pelenni pren a gynhyrchir yn cael eu defnyddio yn bennaf mewn gorsafoedd pŵer sy'n llosgi glo, ac nad oes yr un o'r rhain yn lleol, ond bod yr Almaen yn un farchnad ffynhonnell bosibl.

Cydnabyddir bod egwyddor gweithfeydd biomas gwres ac ynni cyfunedig yn gynaliadwy ac yn cynnig manteision ynni o bwys sy'n cyfrannu at amcan cyffredinol y DU a Llywodraeth y Cynulliad wrth ymdrin â newid yn yr hinsawdd. Fodd bynnag, fel rhan o'r broses gynllunio, mae pob cais yn seiliedig ar eu teilyngdod unigol. Felly, mae'n anodd iawn amgyffred sut y mae'r datblygiad arfaethedig yn Llangefni yn cyfrannu at ymdrin â newid yn yr hinsawdd a sut y gellir ei gyfiawnhau fel bod datblygiad cynaliadwy oherwydd:

- Mae'n dibynnu'n drwm ar filltiroedd ffyrdd wrth fewnforio pren ac allforio pelenni pren.
- Nid yw'n delio â gwastraff yn agos at y lle y cynhyrchir ef, fel y nodir yn Egwyddor Agosrwydd yr Hierarchaeth Gwastraff.
- Dim ond ar gyfer cynhyrchu pelenni pren y defnyddir y gwres a gynhyrchir o fewn y broses
- Nid oes galw lleol wedi'i brofi am y pelenni pren sydd i'w cynhyrchu

Mae cynaliadwyedd yn ystyriaeth gynllunio berthnasol ac yn seiliedig ar y wybodaeth a gyflwynwyd i gefnogi'r cais, y canllawiau a nodir o fewn y polisiau cynllunio cenedlaethol a lleol nodir yn y ddogfen hon, nid oes digon o wybodaeth a chyfiawnhad i fodloni'r Awdurdod Cynllunio Lleol bod y datblygiad arfaethedig yn cyfrannu at ymdrin â newid yn yr hinsawdd, a'i fod yn wirioneddol gynaliadwy.

Archaeoleg

Fel y nodwyd o fewn yr ymatebion i'r ymgynghoriad gan Wasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd, mae nodweddion Neolithig a Rhufeinig wedi cael eu nodi ac mae ymchwiliadau cychwynnol wedi eu cynnal ar y safle. Ar gyfer ymchwiliad pellach, ystyrir y byddai amod cynllunio sy'n ymwneud â rhaglen o stripio, mapio a samplo yn ddigonol.

7. Casgliad

Fel rhan o'r broses gynllunio, mae'r ymgeisydd wedi methu dangos bod y datblygiad yn cydymffurfio â pholisi cynllunio lleol a chenedlaethol gan yr ystyrir y bydd y datblygiad arfaethedig yn effeithio'n andwyol ar:

- Ansawdd aer lleol,
- Safleoedd ecolegol dynodedig Ewropeaidd,
- Y rhwydwaith ffyrdd lleol
- Yr economi lleol
- Amcanion cynaliadwyedd yr awdurdod
- Integriti gweledol a thirwedd yr ardal
- Goblygiadau sŵn

8. Argymhelliad

Gwrthod am y rhesymau canlynol:

Priffyrdd

(01) Nid oes manylion wedi eu cyflwyno ynghylch y mynedfeydd arfaethedig i ac o'r safle ac felly byddai'r datblygiad arfaethedig yn anfoddfaol o ystyried y dull mynediad is-safonol presennol. Ystyrir bod y cais felly yn groes i bolisi 1 Cynllun Lleol Ynys Môn a pholisïau GP1, GP2, TR1, TR2, TR3 Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn sydd Wedi'i Stopio.

(02) Erys manylion gwrthdrawiadol a gwybodaeth annigonol mewn perthynas â data a ddarparwyd gan yr ymgeisydd i fodloni'r Awdurdod Cynllunio Lleol na fyddai unrhyw effeithiau andwyol ar y rhwydwaith ffyrdd lleol a pherygl i ddiogelwch a llif y traffig. Ystyrir bod y cais felly yn groes i bolisi 1 Cynllun Lleol Ynys Môn a pholisïau GP1, GP2, TR1, TR2, TR3 Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn sydd Wedi'i Stopio.

Ansawdd Aer

(03) Yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol, erys manylion annigonol ac anghyson o ran data a ddarparwyd gan yr ymgeisydd i fodloni'r Awdurdod Cynllunio Lleol na fyddai unrhyw effeithiau andwyol i ansawdd yr aer lleol. Ystyrir bod y cais felly yn groes i bolisïau 1, 6, 43, 45 o Gynllun Lleol Ynys Môn a pholisïau PO8b, GP1, GP2, EP18 Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn sydd Wedi'i Stopio.

Sŵn

(04) Yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol, erys gwybodaeth annigonol o ran data a ddarparwyd gan yr ymgeisydd i fodloni'r Awdurdod Cynllunio Lleol na fyddai unrhyw effeithiau andwyol yn ymwneud â llygredd sŵn yn deillio o'r datblygiad a'i effeithiau posibl ar iechyd dynol. Ystyrir bod y cais felly yn groes i bolisïau 1, 6, 43, 45 Cynllun Lleol Ynys Môn a pholisïau PO8b, GP1, GP2, EP18 Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn sydd Wedi'i Stopio.

Ecoleg

(05) Yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol, erys gwybodaeth annigonol o ran data a ddarparwyd gan yr ymgeisydd i fodloni'r Awdurdod Cynllunio Lleol na fyddai effeithiau sylweddol tebygol ar ACA Corsydd Môn. Ystyrir bod y cais felly yn groes i bolisïau 1, 33, 45 Cynllun Lleol Ynys Môn a pholisïau PO8, GP2, EN4, EN5, EN6 Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn sydd Wedi'i Stopio.

Effaith Tirwedd

(06) Ym marn yr Awdurdod Cynllunio Lleol, byddai lefel yr effaith weledol yn sgil y datblygiad yn debygol o fod yn nodwedd amlwg ar y gorwel. Byddai uchder, màs a maint y cais yn ei gwneud yn anodd eu lliniaru'n foddhaol yn y lleoliad penodol o ran cynllun tirlunio, ac ni fyddai'n darparu gwelliannau i'r dirwedd ehangach. Ystyrir bod y cais felly yn groes i bolisïau 5, 31, 40, 41, 42 Cynllun Lleol Ynys Môn a pholisïau GP2, EP18, EN1, EN13, ac EN15, EP8 Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn sydd Wedi'i Stopio.

Effaith Economaidd a Chynaliadwyedd

(07) Ym marn yr Awdurdod Cynllunio Lleol nid yw'r effeithiau ar ansawdd aer, sŵn, yr effeithiau ar ecoleg a'r effaith ar y rhwydwaith ffyrdd wedi cael sylw digonol o fewn y Datganiad Amgylcheddol. Ynghyd â barn negyddol y cyhoedd ynghylch y datblygiad, ystyrir y bydd y datblygiad yn cael effaith andwyol ar yr economi lleol ac nid yw'n bodloni'r meini prawf o ddatblygiad cynaliadwy. Ystyrir bod y cais felly yn groes i bolisïau 1, 2, 33, 45 Cynllun Lleol Ynys Môn a pholisïau GP1, GP2, EP7, EP8, EP18, EN5, EN6, WP1a, WP3, WP4 Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn sydd Wedi'i Stopio.

Egwyddor Agosrwydd

(08) Yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol, mae'r ymgeisydd wedi methu â chadarnhau y gall y gwêr gwastraff a phren wedi'i gompostio a ddefnyddir fel tanwydd i'r gwaith hylif a solet CHP gael ei brynu yn Ynys Môn neu hyd yn oed yng Ngogledd Cymru. Byddai ei brynu, felly, yn cynhyrchu milltiroedd ffordd sylweddol, ac allyriadau CO2 o ganlyniad. Felly barn yr Awdurdod Cynllunio Lleol yw nad yw'r cais yn unol â pholisi 29 Cynllun Lleol Ynys Môn nac o fewn yr ethos o ddelio â gwastraff mor agos at y ffynhonnell ag sy'n bosibl, fel yr hyrwyddir trwy'r egwyddor agosrwydd a nodir yn TAN21-Gwastraff a Pholisi Cynllunio Cymru.